

Plant y fro yn mwynhau rasio



Mae'n draddodiad bellach i gynnal rasys ffordd yn ystod wythnosau ffeiriau haf a gwyliau pentrefol y fro. Llanrug a Deiniolen fu'n cynnal gweithgareddau yn ystod mis Mehefin, ac ar wahan i rasys i oedolion (gweler adroddiadau ar y tudalennau chwaraeon), roedd rasys hefyd ar gyfer y plant, ac yn ffodus cawsant dywydd sych.

Yn Neiniolen roedd y plant yn rhedeg drwy'r pentref gan orffen yn yr ysgol. Cylch 1k ar y ffyrdd yng nghefn yr ysgol oedd y cwrs i

blant Llanrug. Yno, roedd ras y plant yn hynod boblogaidd, gyda 135 o blant oedran cynradd yn cystadlu, a llawer o'r rhieni yn cadw cwmni i'r rhai ieuengaf.

Yn y ddwy ras roedd medalau i gofio'r achlysur i bob un o'r rhedwyr, a chymryd rhan oedd yn bwysig – ac efallai feithrin talentau ar gyfer y dyfodol.

Llongyfarchiadau i'r trefnwyr a'r holl blant, a diolch i'r rhieni am gefnogi.

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

RHIF 478
Gorffennaf / Awst 2019
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i**
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr,
Deiniolen LL55 3LU 07798552238
tonyelliott17@yahoo.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Egan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Lowri Ceiriog,
4 Erw Wen.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO:

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

Rhifyn
Medi

Copi i law
Sul 25 Awst

Bwn delu
Gwener 6 Medi

Ble
Llanrug

LLYTHYRAU

Amgueddfa Lechi Cymru,
Gilfach Ddu,
Llanberis, Gwynedd. LL55 4TY
11eg Mehefin, 2019.

Annwyl Ddarllenwyr,
Bydd mis Awst 2019 yn dynodi hanner canrif ers cau Chwarel Dinorwig.
I goffau'r cau bydd Amgueddfa Lechi Cymru yn cychwyn prosiect recordio
atgofion cyn chwarelwyr / gweithwyr Chwarel Dinorwig.
Os gwyddoch am unrhyw un a fyddai â diddordeb buaswn yn ddiolchgar
iawn petaech yn cysylltu gyda fi. Bydd y recordio cyntaf yn digwydd yn
ystod wythnos gyntaf Gorffennaf, ac yna yn parhau yn ystod y flwyddyn.
Fy manylion cyswllt yw:

cadi.iolen@amgueddfacymru.ac.uk
02920 573714
Yn gywir,
Cadi Iolen (Curadur)

Annwyl Olygydd

Hoffwn gymryd y cyfle yma i gyflwyno fy hun fel Comisiynydd newydd
y Gymraeg.

Mi ddechreuais i yn y swydd ar 1 Ebrill eleni. Fy nod i a'r tîm o swyddogion
sy'n gweithio efo fi ydy cynyddu'r cyfleoedd sydd gennych chi i ddefnyddio'r
Gymraeg yn eich bywyd bob dydd. Rydyn ni wedi ein lleoli mewn pedair
swyddfa; yng Nghaernarfon, Caerdydd, Caerfyrddin a Rhuthun.

Er mwyn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl ac er mwyn gwneud
yn siŵr ein bod yn cael effaith wirioneddol ar lawr gwlad, mi fyddwn yn
gosod blaenoriaethau. Dyma lle rydw i angen eich help chi.

Rydw i'n dŵad yn wreiddiol o Rosllannerchrugog ger Wrecsam, ac yn
dal i fyw yn y pentref gyda ngwraig Llinos. Mae gen i ddarlun clir o beth
ydi'r cyfleoedd a'r heriau i ddefnyddio'r Gymraeg yn fy ardal i, ond rydw i
angen gwybod sut mae pethau ym mhob rhan o Gymru. Oes yna ddigon
o gyfleoedd i chi neu'ch plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol?
Ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau? Pa mor
hawdd neu anodd ydy defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn eich ardal
chi? Oes yna unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r iaith? Beth ydych chi'n credu
dylai Comisiynydd y Gymraeg fod yn ei wneud i wella'ch profiad chi o
ddefnyddio'r Gymraeg?

Byddwn yn ddiolchgar tu hwnt os gallwch gysylltu â mi gyda'ch sylwadau.
Gallwch wneud hynny drwy e-bostio post@comisiynyddygyymraeg.cymru
neu ysgrifennu ataf i Comisiynydd y Gymraeg, Bloc C, Doc Fictoria,
Caernarfon, Gwynedd. LL55 1TH.

Yn gywir,
Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru**

£50: Cyril a Dilys, Ael
Y Bryn, Newton Street,
Llanberis.

£25: Er cof am Mrs Jennie
Owen, Hafan Elan, Llanrug.

£20: Er Cof am Dilys Wyn
Morris, Foelas, Deiniolen
gan Mair, Dennis a'r teulu,
Tregarth.

**Urdd Gobaith Cymru
1922-2022**

*Cyrol yn casglu'r archif o
atgofion a lluniau*

Oes gennych chi gyfraniad?
Annwyl ddarllenwyr,
Mae cyrol helaeth, yn cynnwys
llawer o luniau ac atgofion, ar y
gweill i ddathlu canrif Urdd Gobaith
Cymru 1922-2022. Croesewir pob
atgof/llun/archif at y prosiect hwn –
yn rhodd i'r Urdd neu yn fenthyciad.
Mae swyddfeydd gwersylloedd yr
Urdd yn Llangrannog, Glan-llyn
a Chaerdydd yn barod i'w derbyn
(neu drwy ebost archif@urdd.org).
Eisoes mae trysorau o flynyddoedd
cynnar y mudiad wedi dod i'r
fei. Ond peidiwch ag anghofio
bod angen hanes y blynyddoedd
diweddaraf yn ogystal!
Edrychwn ymlaen at gael rhannu'r
cyfan.

Yn gywir,
Myrddin ap Dafydd
(golygydd y gyfrol)

Gair gan y Golygydd

Gyda diolch i chwi am gadw at y
'dedlein' ar gyfer y rhifyn hwn –
wel bron bawb. Fe wyddoch felly
pam fod lluniau ac adroddiadau
yn brin mewn ambell bentref.
Ar y llaw arall, anfonwyd bron i
ddeg ar hugain o luniau i mewn
o un pentref! Does dim gobaith
eu cynnwys i gyd. Yn wir, does
dim gobaith cynnwys eu hanner,
ac y mae hyn yn creu llawer o
waith dianghenrhaid gan fod
angen goleuo pob llun a pharatoi
fersiwn lliw a du a gwyn. Roedd
llawer o'r lluniau yn dangos yr
un bobl/plant mewn amrywiol

sefyllfaoedd. Dewiswch rhyw
un neu ddau y tro nesa, plis. Mae
safon rhai o'r lluniau yn parhau yn
wael ac yn edrych fel cymeriadau
Lego o'u chwyddo – a heb eu
chwyddo dydyn nhw fawr mwy
na maint stamp. A plis, plis,
plis, unwaith eto (sawl gwaith
mae angen gofyn!) peidiwch ac
anfon lluniau ar Word na PDF.
Cysylltwch â Gwyndaf Hughes
(gweler tudalen 2) os ydych yn
ansicr sut i anfon lluniau ar gyfer
y papur.

Roedd yn fwriad dathlu
llwyddiannau ieuencid y fro

yn Eisteddfod Genedlaethol yr
Urdd yng Nghaerdydd, ond prin
oedd yr adroddiadau a'r lluniau
a dderbyniwyd. Does ond
gobeithio y daw gwell ymateb os
daw llwyddiant yn yr Eisteddfod
Genedlaethol yn Llanrwst.
Hwn yw'r rhifyn olaf cyn
gwyliu'r haf. Cofiwch gofnodi
digwyddiadau dros fisoedd
Gorffennaf ac Awst yn eich
gwahanol ardaloedd, a'u hanfon
erbyn y dyddiad cau, sef Awst
25ain. Mwynhewch y gwyliu.

Cwyp Vivian



Tywydd sych eithriadol yn cael ei ddilyn gan law trwm dros wythnos a mwy yw'r eglurhad am y cwyp sylweddol a ddigwyddodd yn Chwarel Vivian. Clywyd y swm ym mhentref Llanberis, a bu'n rhaid i swyddogion Parc Padarn gau'r mynediad i'r hen chwarel o safle'r Gilfach ddu er mwyn diogelwch y cyhoedd.



Yn ystod y mis aeth heibio

- Cwmni Ford yn rhoi rhybudd y bydd eu ffatri ym Mhenybont ar Ogwr yn cau fis Medi 2020, a hynny'n bennaf o ganlyniad i'r ansicrwydd dros y tair blynedd diwethaf ynglŷn â Brexit. Arbenigwyr yn rhagweld y gallai mwy o weithfeydd yn ddibynnol ar y farchnad foduro gau.
- Yr Arlywydd Trump yn ymweld â Llundain..... ond wrth gwrs, wnaeth o ddim. Yng ngeiriau y Donald ei hun, 'fake news' oedd y cyfan.
- Teresa May yn ymddiswyddo'n swyddogol, a'r ras am ddewis ei holynydd yn cychwyn yng nghanol cyfaddefiadau a honiadau fod nifer o'r ymgeiswyr wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn y gorffennol. Y bleidlais gyntaf yn cael gwared â thri ymgeisydd, a Boris dafotrydd ymhell ar y blaen.
- Y Blaid Lafur yn dal gafael yn sedd Peterborough; sedd ble'r oedd dros 60% o'r etholwyr o blaid Brexit dair blynedd yn ôl. Y prif gyfryngau yn rhoi llawer mwy o sylw i Farage nac i'r aelod seneddol newydd.

- Optometreg Cymru, yn argymhell y dylai archwiliadau llygad gael eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg. Wedi cawod o brotestiadau, yn ymddiheuro.
- Aelodau Senedd Cymru yn galw eto am yr hawl i bennu trethi teithwyr awyrennau ym Maes Awyr Caerdydd. Y Trysorlys yn Llundain yn gwrthod – eto. A'r rheswm? Gallai amharu ar nifer y teithwyr ym Maes Awyr Bryste. Gwarchod Lloegr ar draul Cymru – eto.
- Mark Drakeford yn ymweld â Brwsel i ddadlau achos Cymru. Y Swyddfa Dramor yn gwrthod paratoi car swyddogol iddo onibai ei fod yn cefnogi safiad Llywodraeth Prydain ar Brexit. Yntau'n gwrthod ac yn defnyddio cludiant cyhoeddus.
- Dathlu deng mlynedd ers i Hafod Eryri gael ei agor ar gopa'r Wyddfa.
- Cyngorau Tref Porthmadog a Blaenau Ffestiniog yn datgan cefnogaeth i annibyniaeth Cymru; hynny yn dilyn datganiad gan Gyngor Tref Machynlleth yn gynharach, y cyngor cyntaf yng Nghymru i wneud hynny.

EISTEDDFOD DDAWNS BETHEL



Daeth nifer dda i gystadlu – yn ferched a bechgyn – eleni dan lygaid craff y beirniad Chloe Roberts o Lanrug. Daeth torf dda hefyd i gefnogi'r ieuenctid. Diolch i deuluoedd Treflys, Cefn Ffrwd, Sian Harris ac Enid a Meurig Hughes am noddi y tlysau. Diolch i Miss Hebenstreit am hyfforddi y grwpiau dawnsio gwerin yn yr ysgol. Cafwyd dechrau da i'r noson gyda perfformiad egniol, hyderus gan grwp Cylch Meithrin Bethel.



Dyma'r canlyniadau ar y noson.

Grwp Bl.2 ac Iau :
Sêr Bach

Unigol Bl. 3,4,5 a 6
!af: Olly Jones
2il. : Cadi Evans
3ydd : Lydia Thomas

Parau Bl. 3,4,5 a 6
!af : y chwiorydd Cadi a Leia Evans

Grwp Bl. 3,4,5a 6
1af : Digrifwyr Gwirion
2il : Llwh Lloer
3ydd : Grwp Beca

Dawns Gwerin Cynradd
1af : Grwp Leia

Tlysau Rhagoriaeth
Dawnsiwr y Noson : Olly Jones (Bl.3)
Perfformiad y Noson : Ellen Williams (Bl.5)

O EISTEDDFOD YR URDD



Llongyfarchiadau mawr i Lleucu Mair Evans a Siôn Llwyd Lewis o Adran Bethel am eu llwyddiant: Lleucu wedi cael 1af am waith creadigol 2D Blwyddyn 3 a 4 ac 2il am waith gwehyddu blwyddyn 3 a 4 a Siôn wedi cael 3ydd yn y gystadleuaeth Ffotograffiaeth a Graffeg Cyfrifiadurol Blwyddyn 6 ac iau.



Y wobwr gyntaf hefyd i'r grwp hyn Cythraul Mewnol yn y dawnsio a hynny mewn cystadleuaeth safonol iawn.

Gyda 18 grwp yn cystadlu llwyddodd y grwp dawnsio iau, Digrifwyr Doniol gyrraedd y llwyfan ond tu allan i safle'r medalau. Serch hynny, mae'r profiad o berfformio ar y llwyfan mawr yng Nghanolfan y Mileniwm yn siwr o aros gyda nhw am hir.



Llongyfarchiadau i Gwion Wyn Jones, Stad Eryri ar gipio y brif wobwr yng nghystadleuaeth y Cyflwyniad Theatrigr Unigol I rai rhwng 19-25. Ym mis Medi bydd Gwion yn dechrau cwrs tair blynedd yn Academi Actio Italia Conti yn Llundain. Dymuniadau gorau iddo.

Yr un modd, llongyfarchiadau i unigolion eraill o'r gymuned a fu'n aelodau o grwpiau, bandiau, corau etc. a gipiodd wobrau. Llongyfarchiadau hefyd i'w hyfforddwyr.

Parhad BETHEL



CLWB BRO



I gloi tymor amrywiol, i gyfeiriad Aberystwyth y mentrodd 28 o aelodau a ffrindiau ar gyfer y wibdaith flynyddol. Er y tywydd llaith yr oedd trefniadau Mary Wyn ac Anne Elis yn sicrhau diwrnod hamddenol i'w fwynhau. Unwaith eto roedd gyrrwr Bysiau Rhiwlas yn benigamp ac yn gaffaeliad i ni.

O Fethel, crwydro draw am Ddolgellau a chael rhyw seibiant yno am baned a chrwydr o gwmpas Sgwâr Eldon. Yn fuan yn y daith sylwyd fod nifer o deithwyr selog yr A470 ac un gorchwyl cyffredin – cyfrif y nifer o loriau Mansel Davies! Ar y diwrnod gwelsom 17 ohonnynt, ond yn ffodus doedd yr un o'n blaenau. Yna heibio Tal-y-llyn a Chorris i Fachynlleth ac yna ymlaen i Aberystwyth. Diddorol sylwi cyn gymaint o fannau ar gyfer twristiaeth sydd yn y rhan yma bellach. Arafwyd ger siop Gymunedol Clettwr ac efallai gweld awgrym o beth allai ddigwydd yma ym Methel.

Cyrraedd Aber, a'r merched wrth eu bodd. Ble'r oedd y man disgyn o'r bws? Syth tu allan i siop newydd enfawr M.ac S. yn Aber. Cafwyd digon o amser i grwydro o gwmpas y dref ac ymweld a nifer o'r siopau., Mae nifer o siopau Aber o hyd yn siopau teuluol, ac ychydig iawn o siopau gwag sydd i'w gweld. Nid yw dylanwad y siopau ar gyrion y dref wedi taro Aber hyd yma, fel ym Mangor dyweir. Calon y gymuned yn Aber o hyd yw'r Stryd Fawr.

Ar y ffordd adref cafwyd seibiant yng Nghanolfan Crefftau Corris. Bu hyn yn boblogaidd iawn oherwydd yr amrywiaeth o grefftau a amlygir yno. Roedd y canolfannau gwaith gwydr, pren a gemwaith yn boblogaidd iawn. Hefyd y ganolfan creu danteithion o siocled. Roedd y tywydd llaith ac oer yn rhoi esgus da i ymweld â'r bragdu gin. Roedd y perchnogion yn barod iawn â'u 'gwydr i brofi' a phwy oedd aelodau Bethel i wrthod! Canolfan ddiddorol yw'r bragdy gin yma. Mae wedi cael cryn sylw ar raglenni teledu gan fod y gin yn cael ei greu o dyfiant naturiol Dyffryn Dyfi.

Ymlaen wedyn I Westy'r Oakley ym Maentwrog ar gyfer ein pryd bwyd – neu yn hytrach gwledd. Ystafell i ni'n hunain a gweini penigamp gan staff naturiol Gymreig. Awran hamddenol a phawb wedi eu plesio. Caed sgwrs dros y baned am weithgareddau y tymor yn gyffredinol. Y farn oedd fod y gymysgfa o siaradwyr gwadd ac ambell i daith ceir wedi llwyddo. Yn wir, awgrymodd yr aelodau gyrchfannau posibl ar gyfer y tymor nesaf. Digon i'r pwyllgor gnoi cil arno cyn ail afael ynddi ym mis Medi.

Ein bwriad fel Clwb Bro yw cynnig nid yn unig adloniant ond hefyd awran ddiddos i bobl gyfarfod. Felly, croeso i chi ymuno â ni y tymor nesaf. Am dâl aelodaeth o £5 mae gwledd ar sawl ystur yn eich haros.

MERCHED Y WAWR



Daeth tymor cangen Bethel i ben gyda'n gwibdaith arferol, gan anelu eleni at dopiau dyffryn Conwy. Wedi orig ginio ym Metws y Coed aed ymlaen hyd y dyffryn i bentref hanesyddol Ysbyty Ifan.

Yma, y sefydlodd Marchogion Urdd Sant Ioan 'ysbyty' yn 1190 i bererinion ar y ffordd i Enlli. Ein bwriad y tro yma oedd gweld storfa ddillad Gorsedd y Beirdd yn adeilad y Felin. Penodol iawn â'r Brifwyl yn cartrefu yn Llanrwst fis Awst. Yno i'n croesawu roedd Ela Jones, Cerrigellgwm, Meistres Y Gwisgoedd. Wedi eu harddangos yn ddestlus roedd sampl o wisgoedd yr Orsedd- yn wyn, gwyrdd a glas – gwisgoedd yr uwch swyddogion gan gynnwys yr Archdderwydd, ac hefyd gwisgoedd y ddawns flodau. (Bu Dilys ac Anne yn fodolau perffaith I arddangos ambell wisg!)

Yn dawel a naturiol, rhoddodd Ela adroddiad ar y gwaith anghenrheidiol pob blwyddyn i'w golchi a smwddio. Eleni gyda dechrau tymor Archdderwydd newydd – Myrddin ap Dafydd – bydd rhaid addasu ei wisg. Wrth fodio a theimlo'r gwisgoedd roeddem yn rhyfeddu at y gwaith llaw cywrair yng nghynlluniad yr holl ddilladau seremonïol. Y mae'r brodwaith addurniadol ar glogyn yr Archdderwydd i'w ryfeddu. Nid yw hyd yn oed technoleg fodern y cyfryngau yn gallu rhoi gwir ddarlun o'r arbenigedd yma.

Rhan olaf y diwrnod oedd mwynhau bwffe yng nghwesty Pont Waterloo ym Metws y Coed. Gosteg fer bellach, nes bydd tymor newydd yn dechrau ar nos Fercher, Medi 11ed., am 7.30pm yn Festri'r Cysegr. Edrychwn ymlaen i ail-gychwyn, gan estyn croeso i unrhyw aelodau newydd hoffai ymaelodi.

ARVONIA



- ✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓Adran teithiau grŵp.
- ✓Tocynnau rhodd.
- ✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvonias.co.uk



Ysgol Gynradd Bethel



Cawsom wythnos ffitrwydd yn yr ysgol Mehefin 10fed i'r 14eg. Roedd yn gyfle i hybu iechyd a ffitrwydd meddyliol a corfforol. Aethom ati i gael amrywiaeth o fusnesau lleol i ddod i mewn i'r ysgol er mwyn dangos ychydig o'r hyn roedd ganddynt i'w gynnig. Diolch i'r holl fusnesau am roi eu hamser i ddod i'r ysgol. Braff oedd gweld y disgyblion yn mwynhau ac yn trio gweithgaredd nad oeddent efallai wedi ei drio o'r blaen. Meddwl iach, Corff iach!

CYDYMDEIMLO

Fel roedd yr Eco weedi mynd i'w wely y mis diwethaf daeth yr 'hen alwad' i daro dau o deuluoedd y pentref. Rydym yn cydymdeimlo gyda Brian ac Eirlys Sharpe, Ael-y-bryn o golli chwaer Brian draw ym Mae Colwyn.

Yr un modd cydymdeimlwn gydag Eirian Williams a'r teulu, 12 Cremlyn, o golli gŵr, tad a thaid sef Gwynfor, wedi brwydr ddewr dros y cyfnod diweddar. Atgoffwyd ni yn yr angladd fod Gwynfor ar un adeg wedi gweithio fel portar ym Mhalas Buckingham. Ar ddiwrnod yr angladd roedd Donald Trump yn ymweld â'r Palas. Fel tynnwr coes o'r radd flaenaf awgrymodd y Parch. Marcus Robinson I ni ddychmygu Trump yn dod wyneb yn wyneb a Donald. Buasai rhyw ddywediad bachog yn siwr o ymddangos!

Yn cymeryd rhan hefyd yn yr angladd roedd y Parch. Gwynfor Williams un a chysylltiad agos fel gweinidog â chapeli Bethel a Saron dros y blynyddoedd. Rydym yn cydymdeimlo ag yntau hefyd o golli mab yng nghyfraith – gŵr Eurgain – draw yn Roslefain, Meirionydd yn ddiweddar.

Mae'r teuluoedd I gyd yn cydnabod a diolch am y cydymdeimlad a ddangoswyd yn eu colled ddi-symwth.

LLONGYFARCHIADAU

Y tro yma i Rhian a Gareth Hughes, Stâd Rhoslan ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach, Popi Wyn, i Rhys a Lucy draw yng nghyffiniau Caerloyw. Chwaer fach i Lili Mai. Dymuniadau gorau iddynt.

GWAHODDIAD

Mae Mary Evans a'i chriw yn eich gwahodd i Dê Mefus yn y Neuadd Goffa ar bnawn Gwener, Gorffennaf Sed rhwng 2pm a 4pm. Yn ogystal a'r danteithion bydd y stondinau prynu a gwerthu a'r raffl ar gael. Y tro hwn bydd yr elw yn cael ei rannu rhwng Mudiadau Ymchwil Cancr y Fron a'r Prosdad.

OEDFAON GORFFENNAF

SARON: 7/7 O.T. Hughes 14/7 Parch. Gwynfor Williams
21/7 Trefniant Lleol 28/7 Parch. Richard Gillion

CYSEGR: 7/7 Parch. Dafydd Hughes 14/7 Gweinidog 21/7
Parch. Gwynfor Williams 28/7 Gweinidog

BETHEL: 7/7 Parch. Eifion Williams 14/7 Donald Pritchard
21/7 Glyn Owen 28/7 Cyfarfod Eglwys

Ysgol Gymuned Penisarwaen

Sioe "Paid Cyffwrdd Dweud" – Diolch i Sian Miriam am drefnu i ymweld â'r Ysgol dydd Mawrth, Mehefin 2ail. Roedd disgyblion BL 1, 2, 3, 4, 5 a 6 wedi mwynhau'r cyflwyniad.

Ymweld â'r Archifdy – Dydd Mawrth, Mehefin 11eg, cafodd Blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6 fynd ar ymweliad diddorol i'r Archifdy yng Nghaernarfon. Cawsant gyflwyniad llawn gwybodaeth gan Mr Dilwyn Williams am swyddogaeth archifdy ynghyd â thaith o gylch yr adeilad i weld sut roedd dogfennau a lluniau yn cael eu catalogio yno.

Taith i Chwarel Dinorwig – Cafodd disgyblion yr Adran Iau wahoddiad gan yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis i fynd ar daith addysgiadol dan arweiniad Mr Gareth Roberts ar ddydd Iau, Mehefin 13eg. Unwaith eto cafodd y disgyblion eu cyfareddu gan gyflwyniad Mr Roberts a buont yn dysgu am enwau'r ponciau yn y chwarel. Yn dilyn y daith i'r chwarel daeth yr Artist, Mari Gwent, am ddiwrnod i'r ysgol i wneud gwaith Celf wedi ei seilio ar enwau'r ponciau. Cafodd y disgyblion bleser mawr yn cydweithio gyda hi. Bydd y gwaith gorffenedig yn cael ei arddangos mewn Arddangosfa yn yr Amgueddfa Lechi dros yr haf. Diolch i'r Amgueddfa Lechi am y cyfle i fod yn rhan o'r prosiect hwn i gofnodi hanner canrif ers cau y chwarel.

Ymweld â'r Ysgol Uwchradd - Cafodd BL 6 y cyfle i fynd ar eu hail ymweliad ac Ysgol Brynrefail dydd Mercher, Mehefin 19eg, a dydd Iau, Mehefin 20fed. Bu'r disgyblion yn brysur iawn dros y pythefnos blaenorol yn adeiladu cerbyd ac yn ei reoli drwy raglen gyfrifiadurol cyn mynd â'r pecyn cyfan gyda hwy i'r Uwchradd i'w rasio yn erbyn ysgolion cynradd eraill y dalgylch. Mae pawb bellach yn edrych ymlaen i fynychu Brynrefail fis Medi. Dymunwn y gorau i Harry, Tegid, Elis, Owi, Erin, Elain a Louisa pan fyddant yn cychwyn eu haddysg yno ym Mis Medi.

Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen - Cynhaliwyd Cymanfa Ganu i agor gweithgareddau wythnos y Carnifal yn yr Eglwys Nos Sul, 30/6/19, am 6:30. Bu rhai o'r disgyblion yn cymryd rhan a diolchwn i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Trip diwedd Tymor yr Haf - Dydd Mawrth, Gorffennaf 16eg, byddwn yn mynd i Sw Bae Colwyn am y diwrnod. Gobeithiwn am dywydd braf.

Bydd yr ysgol yn cau dydd Gwener, Gorffennaf 19eg. Dymunwn wyliau haf hapus a diogel i bawb.

Cronfa'r Pensiynwyr - Enillydd y bêl bonws mis Mai oedd Janice Jones, Tyddyn Perthi gyda rhif 24. Llongyfarchiadau!

Diolch - Dymuna Elen Lewis, Penpwlloch, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Cydymdeimlo – Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys iawn gyda Mr Hughie Jones, Heather Bank, yn dilyn ei brofedigaeth ddiweddar o golli ei Dad, Mr Richard Jones.

Diffibrilyddion



Y mae tri diffibriliwr wedi eu gosod erbyn hyn yn y pentref - un ar dalcen tŷ Aled Green, un ar ddrws garej yn Waen a'r llall ar wal yr Ysgol Gymuned. Gobeithir cael un arall. Bydd dosbarthiadau yn cael eu cynnal yn fuan i ddangos i grwpiau o rhyw bymtheg sut i'w defnyddio. Dymunir diolch i bawb am yr ymateb gwyb i'r weithgaredd hon.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a'r enillwyr oedd Irfon Hughes, Waen a Mrs Blodwen Mowll, Bryntirion. Enillwyr Gorffennaf oedd R.H. Owen, Elidir a Pat Larsen, Llygad yr Haul.

Buasem yn hynod falch o aelodau newydd - dim ond £6 y flwyddyn ond mae'n hwb dda at y gost o redeg y Neuadd Gymuned. Mae Archeb Banc ar gael. Bu'r tywydd yn ffafriol nos Fercher, Mehefin 6ed, a diolchir i bawb a gefnogodd weithgareddau'r 'Miri Haf'.

Eisteddfod Bentref Cynhelir yr Eisteddfod nos Fercher, Gorffennaf 10fed, am 6 o'r gloch yr hwyr yn y Neuadd Gymuned. Mynediad i oedolion fydd £2 ac am ddim i blant. Y beirniaid eleni yw Cerdd: Gethin Griffiths; Llefaru a Llên: Meinir Dauncey; Gwaith Llaw/Celf/Arlunio: Sioned Mai; Coginio: Jean Roberts; Cyfrifiadureg: Dafydd Ifans; Limrig a Brawddeg: Arwel Jones. Bydd y canlyniadau yn y rhifyn nesaf. Dymunir diolch i Olwen Meredydd am gofio amdanom eto eleni - fe fwynhaodd pawb arlwy talentau Dyffryn Peris yn Pontio. Diolchir i bawb a gefnogodd - gyda'r elw yn mynd at yr Eisteddfod Bentref. Diolch yn arbennig i Liz am drefnu'r bws.

Ysgol Sul Undebol Bosra Cafwyd orig fendithiol a bywiog yng nghwmni Susan Williams, Cynllun EFE ddydd Sul, Mehefin 9fedd. Fe fwynhaodd y plant stori Daniel yn Ffau'r Llewod a dilynwyd gyda chwe gweithgaredd difyr - tynnu llun, croesair, peintio, gwaith siswrn, lliwio a chanu caneuon bywiog llawn symudiadau. Diolch o galon Anti Susan am fore llawn hwyl.

Cynhelir mabolgampau Ysgolion Sul Ardal Eco'r Wyddfa a Chaernarfon ar gae Ysgol Llanrug ar Fehefin 28ain am 5.30 yr hwyr. Bydd angen i riant/gofalydd aros efo'r plentyn/plant yn ystod y mabolgampau. Am ragor o fanylion cysyllter â susanpanthyfryd@btinternet.com neu 07769279231.

Fore Sul, Mehefin 16, croesawyd tri aelod newydd, sef Grace, Ryan a Harri, ac roedd y tri yn amlwg wedi mwynhau eu hunain yn cael gwneud cerdyn Sul y Tadau. Diolch i Ela am fod yn gymhorthydd gwerthfawr, mae'n braf cael cwmni cyn aelodau fel hyn o bryd i'w gilydd. Bydd yr Ysgol Sul yn gorffen am yr haf ar Orffennaf 14eg, ac yn ailgychwyn fore Sul, Medi 8fed. Croeso twymgalon i aelodau newydd.

Marchnad Ogwen


Neuadd Ogwen, Bethesda

(Marchnad Mehefin ar gae Sioe Dyffryn Ogwen)

Ar yr ail Sadwrn yn fisol 9.30 - 1.00

Bwydydd • Creffttau • Lleol

www.marchnadogwen.co.uk



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

Mae Mrs Nan Roberts, gohebydd y Waunfawr ers sawl blwyddyn bellach, yn dymuno ymddeol o'r swydd yn ystod yr haf. Os oes unrhyw un o drigolion y pentref yn fodlon bod yn gyfrifol am y gwaith, mae croeso i chwi gysylltu â Nan neu unrhyw un o swyddogion yr "Eco". Efallai ei bod yn bosib i ddau neu ddwy o ddeupen y pentref weithio ar y cyd. Mae Nan yn ddigon bodlon rhoi cymorth dros y mis neu ddau cyntaf.

Llongyfarchiadau i Sioned Alaw o Frynrefail a Dylan Gwyn Owen o Gaernarfon ar eu priodas ddydd Sadwrn y Pasg yng Nghapel Salem, Caernarfon. Mae Sioned yn wyres i Tom ac Iona Williams, Llwydiarth. Pob bendith a hapusrwydd i'r ddau yn eu bywyd priodasol gan y teulu a ffrindiau.

Ysgol Gynradd

Ymweliadau Addysgol

- Bu'r dosbarth Meithrin a Derbyn yn y Sw Fôr yn Sir Fôn ddiwedd mis Mai. Cawsant ddiwrnod gwych ond roedd pawb wedi blino erbyn diwedd y dydd.
- Cafodd blwyddyn 1 a 2 fordaith Môr ladron ar y Fenai a phawb yng Nghaernarfon wedi dotio gweld y môr ladron bach yn bihafio mor dda.
- Bu i flwyddyn 3 a 4 dderbyn gwahoddiad i fod yn rhan o brosiect 50 Dinorwig sef cofio cau chwarel Llanberis. Bydd y disgyblion yn cael 2 weithdy sef taith gerdded o'r Amgueddfa a gweithdy celf yn yr ysgol i ddilyn.
- Cafodd disgyblion bl 5 a 6 amser gwych yng Nghaerdydd cyn gwyliau'r Pasg. Diolch i Mrs G. Williams, Miss L. Williams a Mrs N.M. Jones am oruchwylïo'r plant.
- Hoffem ddiolch hefyd i Mathew Gossett am arwain taith gerdded blwyddyn 5 i Foel Eilio yn ddiweddar. Er y tywydd, bu i'r holl ddisgyblion fwynhau yn arw a chael profi gwersi bywyd go iawn am ddiogelwch cerdded mynydd a'r peryglon. Diolch i Terry Parry hefyd a ymunodd gyda Mathew yn y pnawn i esbonio gwaith y tîm achub yn ardal Beddgelert.

Yr Urdd

- Trefnwyd amrywiol weithgareddau pob pythefnos dros y ddau dymor diwethaf

Dyddiad	Gweithgareddau
Ionawr 24ain	Noson Santes Dwynwen
Chwefror 7fed	Noson Bingo
Chwefror 21 ain	Hwylfan Caernarfon 3-45- 5.30
Mawrth 7fed	Caergylchu
Mawrth 21ain	Noson Ffilm
Ebrill 4ydd	Nofio yn y Ganolfan Hamdden Bangor 5.00-6.00
Mai yr 2il	Sesiwn chwaraeon yr Urdd yn y Ganolfan
Mai 16eg	Athletau
Mehefin 6ed	Noson weithgareddau yn yr Antur
Mehefin 20fed	Noson Chwaraeon ar gae yr ysgol.
Gorffennaf 4ydd	Gwylïo ffilm yn Galeri Caernarfon

Digwyddiadau i ddod :		
DYDDIAD	DOSBARTH	GWEITHGAREDD
1-7-19	Bl 6	Cynllunio plât ffarwel
2 a'r 3-7-19	Bl 6	2 ddiwrnod o weithgareddau Awyr Agored
4-7-19	Aelodau'r Urdd	Trip ddiwedd blwyddyn manylion i ddilyn
5-7-19	Pob dosbarth Pob dosbarth	Disgyblion yn derbyn eu hadroddiadau Archebion gwisg ysgol i mewn
10-7-19	Bl 5 a 6	Pnawn hwyl ym Marbryn Caernarfon
10-7-19	Pawb	Ffair Haf
11-7-19	Cyngor Ysgol	Cyfarfod Llywodraethwyr
18-7-19	Bl 3 / 4 a 5	Trip Gelli Gyffwrdd
18-7-19	Bl 6 / Bl M / D/1 a 2	Diwrnod Hwyl Morladron ar gae yr ysgol
19-7-19	Bl 6	Cyfarfod Gwobrwyo Ysgol yn cau

Llongyfarchiadau

- Llongyfarchiadau i Aled, Osian a Cai o flwyddyn 6 am eu llwyddiant gyda thîm pêl-droed Llewod Llanrug. Bu i'r tîm guro Cynghrair Gwyrfai Gwyrdd o dan 12 a churo Cwpan Cynghrair Gwyrfai. Da iawn chi!
- Llongyfarchiadau hefyd i Cadi Lois am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth Dawnsio Disgo unigol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Da iawn chdi!
- Llongyfarchiadau mawr i Mrs Hannah Williams a Chris ei gŵr ar enedigaeth eu merch fach Georgie May. Rydym i gyd yn edrych ymlaen i gael ei gweld.

Dymuniadau gorau i :

- Mrs Sioned Jones sydd wedi cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth.
- Anti Charline a fydd hefyd yn cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth hithau.
- Anti Carol a fydd yn dychwelyd yn ôl i'r gwaith ar ôl cyfnod o salwch.
- Mr Llion Jones a fydd yn cychwyn fel athro yn nosbarth Mynydd Grug ym mis Medi.
- Dymunwn wylïau hapus iawn i bawb.

Clwb 300 y Ganolfan Enillwyr mis Mehefin oedd; £30: Nefyl Owen, Bryn Gwylan (30); £20: Eurig Wyn, Y Frenni (201); £10: Beryl Jones, Dôl y Coed (40).

Casglu Arian at Cymorth Cristnogol 13-18 Mai Dymuna trefnwyr yr achos yn y pentref ddiolch i'r rhai fu'n casglu rhoddion ariannol ac i'r pentrefwyr a gyfrannodd mor garedig at yr achos teilwng i helpu rhai mewn gwledydd sydd yn llai ffodus na ni.

Wythnos y Gofalwyr Mehefin 10 i 16 Diolch i'r gofalwyr sydd yn gofalu, ac am eu hymroddiad caredig i'r rhai sydd yn dibynnu ar eu caredigrwydd.

Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Llongyfarchiadau i aelodau Urdd y cylch fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd ac i'r rhai fu'n ddigon llwyddiannus i gael ymddangos ar y llwyfan. Llongyfarchiadau i Cadi Lois ar ddod i'r llwyfan i gystadlu ar y Dawnsio Disgo Unigol i flwyddyn ysgol 5 a 6 a dod yn drydydd. Rydym yn falch iawn ohonot.

Talent Pêl-droedwyr y Waun Llongyfarchiadau i Osian Tomlinson a Gruff Jones ar gael eu ddewis i dîm pêl-droed dan 14 mlwydd oed Gogledd Cymru. Bydd tîm y gogledd yn chwarae yn erbyn tîm y de yn y Drenwydd brynhawn Sul, 9fed o Fehefin am 3.30 o'r gloch. Dymuniadau gorau a phob lwc i'r ddau ohonoch. Gwnewch eich gorau.

Newyddion Da Llongyfarchiadau i Doris Roberts ar ennill hamper picnic mewn cystadleuaeth ar raglen Prynhawn Da. Mwynhewch eich picnic - gobeithio cewch chi dywydd braf!

Dathlu Pen-blwydd Anfonwn gofion cynnes at Mrs Owen, Bryn Gwylan, a dymunwn y gorau iddi ar ddydd ei phen-blwydd yn 94 mlwydd oed ddechrau mis Gorffennaf. Mwynhewch y dathlu.

Babanod Bach Newydd Llongyfarchiadau i dri theulu yn y pentref ar enedigaeth babanod bach:

Mab, Erwan Dafydd, a anwyd i Elen a Llŷr, Bodrida, brawd a chyfaill bach i Twm.

Ganwyd mab hefyd i Lois ac Alun Williams, Glan Aber, Eban Owen ydi ei enw. Croeso i chi atom ni yn y Waun a gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Mab, Tyler, a anwyd i Tammy a Terry yn Stad Dôl Erddi, brawd a mêt bach i Tyres, ac ŵyr i Wendy a Gary, Stad Tref Eilian.

Dymunwn bob hapusrwydd i chi yng nghwmni y rhai bach.

Parhad WAUNFAWR

Gweithio yn Meddygfa Waunfawr a Llanrug Yn ystod mis Mehefin roedd Gwenno yn cyrraedd 40 mlynedd o weithio yn y Feddygfa ac fel diolch am ei gwasanaeth cafodd ei 'thritio' i noson allan yng nghwmni y meddygon, nyrsys, staff y Feddygfa a'u teuluoedd a mwynhaodd ei hun. Roedd Menna Griffith wedi paratoi teyrnged iddi am ei pharodrwydd i helpu pawb yn y Syrjyri.

Gwenno

Gwenno, gobeithio fod y 'day out' ma di plesio,
Achos mi oeddan yn poeni y basa ti'n stressio,
Di gweithio 40 mlynedd yn syrjeri Waunfawr
Mae'n achos i ddatlu yma yn awr.

Ti wedi gweld doctoriaid yn mynd a dod
A dwi'n siŵr gan bob un, i chdi, ganddynt glod
A'r cleifion i gyd yn dy nabod yn dda,
A gydant di rhannu dyddiau drwg, a da.

Ma Gwenno bob tro yn barod ei chymwynas
Boed yn glaf, yn ffrind, neu yn berthynas.
Os oes cur yn pen neu boen pen glin
Hi yw y ddynas am dabledi neu cream.

Yn yr office drwy y gaeaf a'r ha'
Clywn lais Gwenno yn gofyn, panad ia?
Sŵn llestri yn ratlo fyny'r grisia ar dre
Prysur yn gneud paneidiau coffi a te.

Carafan yn Aberdaron sydd nawr ar y go
Gan groesi bysedd am dywydd braf bob tro.
Yn licio mynd ar ddydd Sadwrn yn fuan
Ond os fydd y tywydd yn ddrwg look out...
Meical druan.

Yn syrjeri Waunfawr cychwynnaist dy daith
A threulio 40 mlynedd hapus o waith,
Fel cydweithwyr a ffrindia yma heno
Diolch am bob dim i ti, Gwenno.
Menna Griffith

Cofion Cynnes Roedd yn ddrwg gennym glywed am ddamwain Eurig Wyn, Y Frenni. Gobeithio ei fod yn gyfforddus erbyn hyn yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cofion ato.

Anfonwn ein cofion cynnes hefyd at Gwenda Griffith, Trefeddyg, sydd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd.

Gwyliau'r Haf Dyma fydd gyda ni yn fuan, yr ysgolion yn cau dros y gwyliau a'r plant yn cael mwynhau eu hunain. Cofiwch gymryd gofal ohonoch eich hunain.

Yn yr Ysbyty Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Nance Hughes, Stad Croesywaun, a Mrs Maggie Jones, Teras Glyn Afon. Mae'r ddwy yn derbyn gofal yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd.

Croesawn Mrs Glenys Williams, Betws Garmon; Elfyn Griffith, Stad Bod Hyfryd a Ron Turner, Collfryn, adref o Ysbyty Gwynedd wedi iddynt dderbyn gofal yno. Gobeithio y byddwch yn gwella wedi dod adref yn ôl i'ch cynefin ac anfonwn gofion cynnes at bawb sydd yn derbyn gofal ar hyn o bryd.

Gwasanaeth Capel y Waun am 10 o'r gloch y bore

Gorffennaf 7: Parch Aneurin Owen, Llansannan

14:

21: Cyfarfod yr Aelodau

28: Parch Dafydd Lloyd Hughes

Ni fydd gwasanaethau yn ystod mis Awst

Medi 1: Parch Pryderi Llwyd Jones

8: Mr John Roberts

15: Parch Anna Jane Evans

22: Parch Gwenda Richards

29: Mr Dafydd Charles Thomas

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

**menter
fachwen**

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER
CAELEN LEB

CYNGOR
GWYNEDD
CONYDA

TEITHIAU CERDDED GORFFENNAF / AWST

GWENER 5 GORFFENNAF 2.00yp
LLANRUG I CAE METTA A CYRION DINAS
DINORWIG (3½ milltir)
CYCHWYN: STAD BRO RHYTHALLT, LLANRUG
SH 54271 63409
CYMEDROL. SGIDIAU CERDDED. / MODERATE.
WALKING SHOES

MERCHER 17 GORFFENNAF 2.00yp
CHWEDLAU DINAS EMRYS (2½ milltir)
CYCHWYN: MAES PARCIO CRAFLWYN, YR
YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL,
BEDDGELERT
SH 59960 48969
ANODD. ANGEN SGIDIAU CERDDED.

IAU 25 GORFFENNAF 10.30yb a 2.00yp
DINORWIG '50: TAITH HANES CHWAREL
DINORWIG: RHIF 4 o 6
10.30yb: DOCIAU Y FELINHELI
2.00yp: PENSCOINS
CYCHWYN: Y FELIN SGWRSIO, FFORDD
BANGOR, Y FELINHELI SH 52584 67687
TAITH Y BORE I'R DOCIAU: HAWDD.
TAITH Y PRYNHAWN I PENSCOINS: CYMEDROL
GYDA ALLT SERTH.

IAU 1 AWST 2.00yp
DINORWIC '50: TAITH HANES CHWAREL
DINORWIC: RHIF 5 o 6
CRWYDRO HANES A CHWAREL MARCHLYN (2
milltir)
CYCHWYN: SAFLE PARCIO MARCHLYN,
UWCHBEN DEINIOLEN. SH 59647 63097
CYMEDROL GYDA ALLT. SGIDIAU CERDDED.

MERCHER 7 AWST 2.00yp
COED Y FAENOL (2½ milltir)
CYCHWYN: PARC BRITANNIA, PARC MENAI,
TREBORTH, BANGOR. SH 54548 69628
EITHA HAWDD. SGIDIAU CERDDED YN
HANFODOL.

GWENER 16 AWST 2.00yp
TAITH GERDDED GORFFWYSFA I LLYN LLYDAW
CYSYLLTWCH AM RHAGOR O FANYLION

GWENER 30 AWST 2.00yp
DINORWIC '50: TAITH HANES CHWAREL
DINORWIC: RHIF 6 o 6
CAU'R CHWAREL
CYSYLLTWCH AM RHAGOR O FANYLION

GARETH ROBERTS
CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD MENTER
FACHWEN
01286 870681 garethroberts754@yahoo.co.uk




CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Bedyddiwr, Cynghorydd ac aelod arall o Gwmni Drama Llanberis

William Abel Davies



Capel Y Bedyddwyr Seion

Rhestrir ei enwymhlith aelodau'r cwmni a berfformiodd y ddrama 'Owain Glyndwr' yn 1880. Ond pwy oedd William Abel Davies, a beth fu ei hanes wedyn? Fe'i ganed yn Ninorwig tua 1852, yn fab hynaf i Abel a Mary Davies. Yn 1861 mae'r teulu yn byw yn Bryn y Felin, Dinorwig. Roedd dau blentyn arall ieuengach na William Abel, sef Robert a Janet. Yn ddiweddarach yn ei oes, bu Robert Davies yn oruchwyliwr yn Chwarel Dinorwig ac yn arweinydd y canu yn Eglwys Sant Mair. Roedd yn byw yn Dinorwig House. Tua 1875 priododd William Abel gyda Jane, merch o blwyf Llanbeblig, ac yno y ganed eu plentyn hynaf, Annie. Ond buan y symudodd y teulu i Snowdon Street, Llanberis, tua 1876, a chredir mai yno y bu'n byw wedyn am weddill ei oes – er iddo symud rywbryd o rif 5 i rif 2, o bosib yn dilyn tân angeuol yn 1905. Mae tystiolaeth hefyd iddo fyw yn Mount Pleasant am gyfnod. Tra yn Llanberis, ganed iddynt ddeg o enethod eraill: Hannah Louisa (1877-1885), Emily (1879-1885), Jenat Elin (1880), Elidir (1881), Eilian (1884), Lilly (1887), Emily (1889), Junia Wheldon (1890), Coronwen Closs (1895) ac Alltwn (1898). Mae enwau dwy o'r merched yn awgrymu cysylltiadau teuluol efo'r Clossiaid a'r Wheldons, ac y mae enwau rhai o'r lleill yn bur anghyffredin. Diddorol nodi fod y ferch hynaf wedi ei chofnodi gartref yn Llanberis yn 1881 a hefyd gyda'i nain a'i thaid yn Ninorwig ar yr un noson !

Roedd tueddiad yn y dyddiau cynnar hyn i'r gymdeithas ddilorni actio a'r rhai a gymerai ran mewn perfformiadau cyhoeddus.

Yn wir, mewn ambell ardal, ceir enghreifftiau o aelodau o gwmnïau drama yn cael eu troi allan o aelodaeth capeli. Nid yw'n ymddangos fod hynny wedi digwydd yn Llanberis, a daeth nifer o aelodau y cwmni cyntaf yn amlwg ym mywyd cyhoeddus y pentref a'r ardal. Dyna fu hanes William Abel Davies.

Bu farw dwy ferch (Hannah ac Emily) yn yr un flwyddyn, ac mae'n amlwg fod y cyfnod hwn yn bur anodd i'r teulu, oherwydd yn 1894 mae tysteb yn cael ei chyflwyno iddo oherwydd "costau trymion afiechyd a marwolaethau'n ei deulu", ac yntau ar y pryd yn analluog i weithio. Ond yn y flwyddyn honno hefyd yr etholwyd William Abel yn aelod o Gyngor Plwyf Llanberis. Roedd erbyn hyn yn aelod blaenllaw gydag Undeb y Chwarelwyr, ac mae'n amlwg iddo ymaelodi â'r Blaid Lafur ifanc ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Ym mis Rhagfyr 1918 ceir hanes R.T.Jones, yr ymgeisydd Llafur dros Sir Gaernarfon yn annerch yn Nant Peris, a chafwyd "araith wir feistrolgar gan William Abel Davies, hen ymladdwr ar lwyfan Llafur, ond yn dal yn gryf fel siaradwr."

Yn Llanberis, ymaelododd â Chapel Seion, enwad y Bedyddwyr, ac yr oedd yn ddirwestwr selog. Roedd galw arno hefyd i annerch mewn gwahanol gymdeithasau llenyddol, a'i destun oedd daeareg. Bu'n Gwnstabl Arbennig yn y pentref, yn un o Lywodraethwyr yr Ysgol Brynrefail ifanc, ac yn aelod dros Lanberis am 21 mlynedd ar hen Gyngor Sir Gaernarfon.

Daeth profedigaeth lem i'w ran ym mis Mai 1905 pan aeth y cartref yn Snowdon Street ar dân. O ganlyniad i'w llosgiadau, bu



Grisiau ar gyfer bedyddio
farw ei wraig, Jane. Erbyn 1911 roedd y genethod i gyd namyn un, wedi gadael cartref. Yr unig un ar ôl oedd Elidir Davies. Flwyddyn ynghynt roedd Eilian Davies wedi mudo i'r America, gan hwylio o Lerpwl am Efrog Newydd ar yr SS Arabic. Fe'i cofnodir fel Eileen Davies.

Rywdro yn ystod y Rhyfel Mawr mae posibilrwydd iddo fyw yn Mount Pleasant. Ym mis Hydref 1916 mae adroddiad amdano yn tyfu pwmpen anferth yn yr ardd. Roedd yn 38 pwys, a chafodd ei harddangos yn ffenestr y Snowdon Valley ar y stryd fawr. Ym mis Rhagfyr 1919 ceir adroddiad am Miss Davies, Mount Pleasant yn priodi gyda Gwilym Williams, Charlotte Street, sy'n cael ei ddisgrifio fel cerddor. Ond pa un o'r merched oedd hon? A ble bu'r pâr priod yn byw wedyn?

O fewn tri mis y mae merch arall yn mudo. Ddiwedd Mawrth 1920 mae Junia Wheldon Davies yn hwylio o Lerpwl ar yr SS Baltic, ac yn nodi mai Astoria, Long Island yw diwedd ei thaith. Tybed a oedd ei chwaer, Eilian yn byw yno? Nodir mai ei chartref yn

Englynion Bedd

Dros y blynnyddoedd cawsom enghreifftiau o wahanol englynion oddi ar gerrig beddau mynwentydd y fro. Roedd straeon diddorol iawn ynghlwm â llawer ohonynt. Mae bellach symudiad ar droed i gofnodi pob englyn bedd, nid yn unig yng Nghymru, ond mewn rhannau eraill o'r byd hefyd – mae degau, os nad cannoedd yn America.

Ciperiaid

Bu llawer o drafod ar hanes ciperiaid y Faenol yn dilyn yr erthygl fis diwethaf, ond un ymateb ysgrifenedig a dderbyniais hyd yma, a hynny gan Eleri Bean, Deiniolen. Mae hi yn hannu o deulu un o'r ciperiaid a ddaeth i Gae'r Mynydd wedi i deulu Ross ymadael.

Llanberis oedd Mount Pleasant. Mae'n dychwelyd ym mis Awst 1922, gan lanio yn Southampton, gyda'r bwriad o fynd yn nyrs plant i rhyw Mrs Heller, yng Ngharrog, ger Corwen. Ond mae'n ymddangos mai dychwelyd i briodi a wnaeth, oherwydd ym mis Hydref, ddeufis ar ôl glanio, priododd Owen Henry Jones o Gwm y Glo yng Nghapel y Bryngwyn, Llanrug. Dywedir fod Owen Henry wedi treulio 30 mlynedd yn America, ac iddo ddychwelyd i Gwm y Glo wedi diwedd yr Ail Ryfel Byd. Bu'n archdderwydd Gorsedd Beirdd Efrog Newydd gyda'r enw barddol Cwm Myfyr, yn arweinydd cymanfaoedd a chyngherddau, ac yn gyfansoddwr. Ond a fu Junia farw yn America cyn iddo ddychwelyd?

Roedd tair arall o ferched William Abel wedi mudo i'r America hefyd. Hyd yn hyn, methais a darganfod pwy oeddynt na pha bryd yr aethant ar draws yr Iwerydd. Roedd Coronwen yn gweini yn Oldham yn un ar bymtheg oed yn 1911 i deulu Ambrose Parkinson sy'n disgrifio'i hun fel General Carrier and Manure dealer ! Am ba hyd yr arhosodd yno tybed? Yn 1924 priododd yn Chorlton gyda rhyw Herbert Hodgson.

Cafodd William Abel oes faith. Bu farw yn Tan y Bryn (credaf mai enw'r tŷ yn Snowdon Street oedd hwn) ym mis Awst 1940 yn 88 oed. Fe'i disgrifir fel "quarryman and geologist". Yn od iawn, does dim son am ei ymroddiad i gychwyn Cwmni Drama gwreiddiol Llanberis. Yn yr adroddiad am ei farwolaeth dywedir fod 8 o'i ferched yn parhau'n fyw, a bod 5 ohonynt yn America. Roedd ei chwaer, Janet, hefyd yn byw yn Llanberis, gwraig i David Owen, Arosfa, Vaynol Cottages. Pedair yn unig o'i ferched oedd yn bresennol yn yr angladd, sef Elidir (a fu byw i fod yn 94 oed, a marw yn Stryd Turner ym mis Hydref 1974), Mrs S.M.Williams, Mrs A.M.Jenkins a Mrs H. Jenkins. Ond pa rai oedd y tair olaf?

Teulu mawr i ŵr a roes lawer o wasanaeth i bentref Llanberis, ond teulu wedi gwasgaru dros y blynnyddoedd. Tybed oes unrhyw ddisgynyddion yn debygol o ddarllen hyn o lith?

Ddiwedd y mis ceir darlith ddarluniadol gan Dr Gruff Rhys yng Nghapel Berea Newydd, Bangor yn trafod yr Englyn Bedd o 1658 hyd heddiw. Fe'i cynhelir am saith yr hwyr ar nos Wener, 26ain o Orffennaf. Mynediad am ddim!

Cafwyd galwad ffôn hefyd gan Neville Williams, Deiniolen. Bydd yn rhaid disgwyl tan fis Medi i gael mwy o wybodaeth, a chyfle hefyd i wneud mwy o waith ymchwil i hanes y ciperiaid.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

GEIR CYMRU



Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros 25 Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Cyngerdd

12 Gorffennaf 2019
Eglwys St. Padarn Llanberis
7 y.h
£8

Côr Rygbi Gogledd Cymru
Akwylodd Gertie Roberts — Cylchlyd Angela Roberts

Caleb Rhys—Unawdydd
Gwydion Rhys—Cello



MONIARS



Nos Wener 23 Awst 19
7 y.h
EGLWYS ST. PADARN
LLANBERIS
Mynediad £5

YMARFER CYMRAEG AR FYNYDDOEDD ERYRI

Eleni, am y tro cyntaf mi fydd yna fusnes mynydda Cymraeg yn ymestyn ei ddarpariaeth i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg ddatblygu eu hyder sgwrsio wrth droedio mynyddoedd Eryri.

Gweledigaeth Stephen Jones o Ddyffryn Ogwen, sylfaenydd a phrif arweinydd busnes anturio Anelu - Aim Higher, ydi arwain teithiau mynydda sy'n rhoi cyfle i oedolion sy'n dysgu Cymraeg i gynyddu eu hyder yn y Gymraeg. Meddai Stephen "Mae mynydda a sgwrsio wrth grwydro Eryri yn ffordd wych o gymhathu i'r gymdeithas Gymraeg a dod i adnabod tirlun a chynefin Eryri drwy lygaid Cymry lleol."

Aeth Stephen ymlaen i esbonio "Dwi'n arwain cymaint o bobl i fynnydda yn Eryri, llawer ohonyn nhw yn byw yn lleol ond yn ddi-gymraeg. Mae yna ddiddordeb ac ewyllys da at y Gymraeg gan lawer iawn ohonyn nhw, mae 'na ffordd o fanteisio ar hyn i hybu'r Gymraeg a'i lle yn y sector awyr agored."

Partneriaid Anelu-Aim Higher yn y fenter ydi Hunaniaith: Menter Iaith Gwynedd. Meddai Ifan Llewelyn Jones, Swyddog Datblygu Iaith gyda Hunaniaith, "Un o amcanion Hunaniaith ydi cynnwys dysgwyr mewn gweithgareddau yn eu cymuned sydd am roi cyfle iddyn nhw ddod i arfer siarad Cymraeg mewn awyrgylch gefnogol. Mae syniad Stephen yn gyfle gwyh i ni gyflawni hynny."

Esboniodd Ifan fod lle i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ymuno â'r teithiau mynydda hefyd, "Wrth gwrs, er mwyn rhoi'r cyfleoedd i ddysgwyr yn llawn mae angen Cymry Cymraeg arnom hefyd, Felly os oes yna siaradwyr Cymraeg ac awydd ymuno â'r teithiau cerdded mi fyddai yna groeso mawr iddynt."

Mi fydd dwy daith gyntaf Anelu-Aim Higher i ddysgwyr yn cael eu cynnal ar yr 8fed a'r 10fed o Orffennaf, 2019. Aiff y gyntaf o Danygrisiau, drwy Gwm Orthin i Groesor a'r ail o Fethesda, heibio Mynydd Llandygai a Dinorwig i Lanberis.

Am fwy o fanylion cysylltwch ag Ifan ar 01286679452 hunaniaith@gwynedd.llyw.cymru.


D-Day, Mehefin 6ed, 1944

(ar ôl gwranddo ar dystiolaeth dirdynol rhai oedd yno)

I lanw o elynion – y daw'r gwŷr
drwy gerrynt y ffrwydron.
Brodyr, tad, yn brwydro ton,
yn aberth dros y meibion.

RLLJ

"RYDYM ANGEN MWY O
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



LLANBERIS Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

Gwobr Efydd Pel-fased



Diolch yn fawr i Ysgol Dolbadarn am groesawu'r Celts at eu plant yn ystod yr wythnosau diwethaf. Llongyfarchiadau i bawb am lwyddo i gyrraedd gwobr efydd Pel-fased Cymru ac i blwyddyn 6 am eu hymdrech a'u hagwedd arbennig wrth gymryd rhan yn sesiwn olaf y clwb gyda'u hysgol.

Merched y Wawr Rydym yn awyddus i sefydlu cangen o Ferched y Wawr yn Llanberis. Cynhelir cyfarfod yn y Ganolfan am 7 o'r gloch nos Fercher, 3ydd o Orffennaf. Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb.

Gwasanaethau Capel Coch

Gorffennaf 7fed am 10yb: Mr John Robert, Waunfawr

14eg am 10yb a 5yh: Y Gweinidog

21ain am 10yb: Mr Gwilym Charles Williams

28ain 10.30yb Oedfa gan yr Aelodau

Awst 4ydd am 10yb: Parch Olwen Williams

11eg am 10yb: Mr Myfyr Roberts


18fed am 10yb: Mr Andrew Settatee

25ain am 10yb: Y Gweinidog

Gwasanaethau Jerusalem

Gorffennaf 7fed am 2yp: Parch John Pritchard

21ain am 2yp: Parch Cath Williams



www.fframia.com

FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

DODREFN A LLORIAU

PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

Taith diwedd tymor i gopa'r Wyddfa



Cafodd 47 o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgol Dolbadarn a phedwar o athrawon daith diwedd tymor yr ysgol i gopa'r Wyddfa, a hynny mewn steil ar y trê'n bach.

Y Cynghorydd Kevin Morris Jones a drefnodd y daith gyda Vince Hughes, Rheolwr Masnachol Stesion Wyddfa. Ac i wneud yn siwr fod y daith yn un i'w chofio, y cynghorydd lleol hefyd oedd yn gyrru'r trê'n.

Mae'r ymgyrch yn parhau!

Yn dilyn llwyddiant cyngerdd diweddar yng nghwmni Dafydd Bullock, Ellen Lloyd Roberts a Chôr Dyffryn Peris, hoffai Pwyllgor Cyfeillion Eglwys Sant Padarn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd tuag at yr ymgyrch i achub yr eglwys hyd yn hyn. Roedd y cyngerdd yn rhan o gyfres o gyngherddau a gynhelir yn ystod yr haf.

Mae cefnogaeth trigolion yr ardal a thu hwnt wedi bod yn arbennig. Mae'r eglwys wedi bod yn fwrlwm o ddigwyddiadau amrywiol yn cynnwys cinio Gŵyl Ddewi a Ffair Greffttau lwyddiannus iawn. Diolch i'r grŵp Cynnal a Chadw sydd yn ddiwyd iawn. Diolch hefyd i'r busnesau a mudiadau canlynol am eu nawdd tuag at rhai o'r digwyddiadau sydd eisoes wedi eu cynnal:

Bws Peris, Canolfan Llanberis, Caws Rhyd y Delyn, Ceir Cymru, CK cabs, Grŵp Datblygu Llanberis, Gwesty Victoria, G.R. Griffiths Garej Y Ffôr, Llygad yr Haul, Penrhyn Workers Social & Welfare Fund, Pentref Taclus Llanberis, Rheilffordd yr Wyddfa, Snowdonia Marathon, Spar Llanberis, Spar Min y Nant Caernarfon, Stephen Edwards, Ysgol Brynrefail Llanrug.

Gwerthfawrogi eich haelioni.

Am y newyddion diweddaraf a manylion digwyddiadau, edrychwch ar y cyfryngau cymdeithasol neu cysylltwch ag unrhyw aelod o'r pwyllgor. Dyma rai digwyddiadau ar gyfer eich dyddiaduron:

29 Mehefin: Noson yng nghwmni Elvis.

12 Gorffennaf: Cyngerdd gyda Chôr y Gogledd, Caleb Rhys – Unawdydd a Gwydion Rhys - Cello.

18-20 Gorffennaf: Caffi'r eglwys ar agor.

19-23 Awst: 'Pop up shop' yn yr eglwys.

23 Awst: Noson yng nghwmni Y Moniars.

21 Medi: Cyngerdd gyda Susan Bullock a Tim Ward.

21-28 Medi: Gŵyl Flodau.

Mae'r ymgyrch yn parhau! Diolch am eich cefnogaeth.



Granvillefab

(Yn dilyn hanes sefydlu'r Cwmni Drama cyntaf yn Llanberis, a Granvillefab yn un o'r aelodau, anfonwyd ei hanes i'r "Eco" gan W. Arvon Roberts, Pwllheli. Yr ydym yn ddiolchgar iawn iddo am y wybodaeth drylwyr ac am fod mor barod i'w rhannu gyda'r darllenwyr. Bydd ail ran yr erthygl hon yn cael ei chyhoeddi yn rhifyn Medi. Golygydd)



Brodor o ardal y Cilgwyn, Arfon, oedd David R. Griffith (Granvillefab). Ganwyd ef Rhagfyr 12, 1851, a bu'n byw yn Stryd Turner, Llanberis, a hefyd yng Ngharmel. Ei rieni oedd Robert a Mary Griffith, ganwyd iddynt un ar ddeg o blant. Un o'i frodyr oedd Richard Griffith, Tyngerddi, Cwmnglo, ac un arall oedd Pierce Griffith, Stryd Turner, Llanberis, a laddwyd mewn damwain pan ddisgynnodd carreg ar ei ben, yn Chwarel Glyn Rhonwy Uchaf (Dinorwig yn ôl ffynhonnell arall), yn haf 1887, sef y diwrnod y daeth Granvillefab adref o'r America ar ymweliad â'i hen ardal, ac i gymeryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol Llundain. Addysgwyd ef yn yr Ysgol Genedlaethol leol ac yna aeth i weithio i'r chwarel. O 1876 i 1882 bu'n ysgrifennydd ac yn un o arweinyddion cynorthwyol Undeb Cerddorol Cynulleidfaoel Eryri, un o'r corau mwyaf poblogaidd yng ngogledd Cymru y pryd hynny. Yr oedd hefyd yn ysgrifennydd Eisteddfod Llanberis ac yn ysgrifennydd cyffredinol Eisteddfod Gadeiriol Eryri. Ac yn ogystal bu am flynyddoedd yn dal cysylltiad â Chôr Waenfawr. 'Y Côr Mawr' oedd yr enw y gelwid ef fynychaf. Gwnaed ef i fyny o gantorion gorau y cwmwd - o Lanberis i'r Waen, ac o Lanbabo i Lanbidinodyn, lle bynnag oedd hynny. Gair ydoedd a arferid yn aml gan drigolion Llanberis pan oeddau nhw mewn hwyl direidus. Cynhaliwyd yr ymarferion yn Neuadd y Pentref, a adnabyddid y dyddiau hynny wrth yr enw clasurol Concert Hall, a nosweithiau pwysig yn hanes y côr oedd y rheini pan ddeuai Dr. Rogers yno i'w berffeithio ar gyfer cystadlaethau canu. Arweinydd cyntaf y côr oedd Eryr Eryri. Granvillefab oedd ysgrifennydd cyllidol y côr, a thra'n gwasanaethu yn y swydd honno aeth £25,000 o arian y côr drwy ei ddwylo, heb unrhyw gamgymeriad yn ei gyfrifon erioed. Yn ystod yr un cyfnod ac yntau'n byw yn Llanberis, bu'n ohebydd arbennig i'r 'Herald' yng Nghaernarfon. Yn 1869, yn llanc 17 mlwydd oed, ymfudodd i'r America, i Granville, Efrog Newydd, lle yr oedd swm sylweddol o fwyngloddwyr Cymraeg. Cafodd yntau waith yn y chwareli llechi yn Middle Granville, yn yr un sir, ychydig dros ddwy filltir i ffwrdd, lle yr oedd gan y Cymry gapel Annibynwyr a Presbyteriaidd. Yn 1872 symudodd i Quincy, Massachusetts, lle y prentisiwyd ef i ddysgu torri ithfaen, a gwneud cerrig adeiladu. Tair blynedd yn ddiweddarach cyrhaeddodd yn ei ôl i Gymru ac yn ôl i'r chwarel lechi yn Llanberis, lle bu'n gweithio am saith mlynedd.

**Ymadawiad D.R.Griffith (Granvillefab),
Carmel, i'r Amerig**

O! Dafydd, pam cefni ar dylwyth dy dad?
Paham y gadewi hoff fryniau dy wlad?
Beth ydyw dy feddwl wrth groesi yr aig
I fynd i'r Amerig mae gofyn cryn sglaig.
Paid gadael cyfeillion hiraethus o'th ôl
A merched serch-glwylfus, paid, paid bod mor ffôl.
O! Dafydd, saf gartre nes tyfo dy farf
Ac yna cei gychwyn fel milwr dan arf.

'Rwy'n caru fy nheulu, 'rwy'n hoff o fy ngwlad
Pa Gymro na charai ei Walia fwyn, fad,
Rwy'n caru'th ddyffrynnoedd a'th ddoludd teg heirdd,
A hoff wyf o awen ardderchog dy feirdd;
Fy Hen Wlad, mae'n anodd dy adael yn wir,
Ffarwelio'm cyfeillion am estronol dir,
O! gwmni, mor galed troi cefn arnat ti,
Wrth feddwl mynd ymaith rhed dagrau yn lli.

Ym myd y Gorllewin mae bywyd sy'n well,
At feddu ein rhyddid rhaid myned ymhell,
Rhaid croesi yr eigion er garwed y daith
A chyd-ddwyn a'r tonau gwlybyrog a llaith;
Mae'r syniad, fy rhyddid, yn diffodd pob rhwystr,
Am ryddid mae f'awydd, gwynebaf y frwydr,
Caethiwed sy'n Ngwalia, Ow! gresyn yw dweud,
Dy orthrwm sy'n orthrwm, dy adael rhaid gwneud.

Rhwydd hynt i ti, gyfaill, os ymaith yr ei
Boed llonder a chyfoeth yn drysor di-drai.
Griffith John Evans (Glan Llifon), 1843-94, Carmel

Perfformiwyd 'Cantata y Plant' (Dr. Joseph Parry) yng Nghapel Gorphwysfa, Llanberis, nos Fercher, Ebrill 12, 1880. Yr oedd y côr yn cynnwys 80 o blant, y rhan fwyaf ohonynt o Gorphwysfa, ynghyd â 25 o oedolion. Granvillefab oedd yr arweinydd. Encoriwyd hwy droeon. Diolchwyd i Cpt.R. Roberts, Dolbadarn Hotel, am ei garedigrwydd yn rhoi benthyg coed at wneud y llwyfan. Yr oedd yr elw at gael llyfrau i'r plant.

Ar Ebrill 15, 1880, yng Nghapel MC Llanrug, gyda'r Parch G.T. Parry, Llanberis, a Mr W.R. Whiteside yn gwasanaethu, priododd Granvillefab â Miss Ellen Jones, Penlan, Llanrug.

Dydd Mercher, Mawrth 6 1881, lai na blwyddyn ar ôl priodi, bu farw Ellen, ei wraig, yn anarferol o sydyn. Bu'n aelod o Temlyddiaeth Dda, yn gantores dda, ac yn aelod o Undeb Corawl Eryri. Gan fod eu tŷ newydd yn cael ei adeiladu, arhosodd yn ei chartref yn Penlan, ac yr oedd ar fin symud i'w chartref newydd pan fu hi farw. Dydd Llun cynt, Mawrth 4, ganwyd iddi ferch fach, Blodwen (a ddaeth yn athrawes yn Llanrug ymhen blyneddodded wedyn). Dydd Mawrth, y 12fed, claddwyd Ellen ym mynwent y plwyf - y cyntaf yn ôl y ddeddf newydd o'r gymdogaeth - er bod un arall o Cwmyglo wedi ei gladdu felly yn yr un fynwent. Cyn cychwyn yn Penlan, bedyddiwyd Blodwen fach yng ngŵydd tyrfa fawr gan y Parch D. Williams, Cwmyglo.

Erbyn 1884 yr oedd Granvillefab yn ei ôl yn yr America ac yn byw yn 400 West Walnut Street, Austin, prifddinas talaith Texas. Yn ystod haf y flwyddyn honno bu'n naddu cerrig ar gyfer Senedd-dŷ y dalaith, a adeiladwyd rhwng 1882 a 1886. Anfonwyd samplau o wahanol rywogaethau o ithfaen oddi yno i'r arddangosfa fawr yn New Orleans, Louisiana yn 1884, ac i Granvillefab yr ymddiriedwyd y gwaith o naddu y darn ithfaen. Wedi ymweld â mannau eraill, ei fwriad oedd dychwelyd i Gymru ymhen dwy flynedd neu dair.

Ond ddigwyddodd mo hynny. Penderfynu aros yn yr America wnaeth Granvillefab ac, yn 1885, ar ôl treulio tua blwyddyn yn Texas, cyrhaeddodd San Fransisco, Califfornia, dinas a'i phoblogaeth dros 285,000 y flwyddyn honno, yn ei gwneud yr wythfed dinas fwyaf yn yr Unol Daleithiau bryd hynny. Gwnaeth ei gartref yn 317 Third Street. Yn groes i'w ddisgwyliadau nid 'Golud a hwyl, gwlad o haf' tragwyddol a gafodd, yn hytrach yr oedd haf San Fransisco yn fwy tebyg i aeaf, yn ôl nerth a merwinder chwibaniad y gwynt, na'r un rhan y bu ef ynddo erioed o'r blaen. gan iddo gael tywydd cynnes ar hyd y daith o Texas yno yr oedd gwynt oer y dref yn annioddefol iddo bron, ac wrth iddo fynd i fyny yn y 'street car' un bore, i'r Golden Gate Park nes ei fod wedi fferru gan lymder yr awel, ni allai lai na chanu fel hyn:

Gwlad oer, disgwyl gweld eira - wir yn dod
Ar wen daith bob bora;
Rhyw siom fa'i aros yma
'I honni o hyd ei bod hi'n ha'.

Yn 1886 ymwelodd â Texas drachefn. Yn gwmpeini iddo ar y daith oedd ei chwaer, Miss Jennie Griffith a dau ŵr o Penryn, pentref dros 600 o droedfeddi uwchben y môr, yn Sir Placer, 28 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Sacramento, prifddinas Califfornia, poblogaeth tua 600, sef David Owen, gynt o Sir Fôn a David Hughes, gynt o Lanllyfni. 'Pedwar doniol iawn a phedwar na raid i Gymry na neb arall gywilyddio yn eu cymdeithas.' Yr oedd Jennie a'i brawd, Granvillefab, wedi treulio deng

mis yn San Fransisco oddieithr y tymor byr dreuliodd Granvillefab yn Penryn. Perchennog y gwaith Ithfaen yno oedd Griffith Griffiths (1823-1889) a anwyd yn Tŷ Gwyn, Llanllyfni, Arfon, a ddaeth yno yn 1864 ac ymsefydlu. Rhoddodd yr enw Penryn i'r lle ar ôl Penryn, Bethesda. Penrhyn y sillafwyd flynyddoedd ynghynt ond a newidiwyd ar gais y Barnwr Edwin Crocker (1818-1875) 'to suit the modern method of simplicity'. Un arall o drigolion Sir Placer oedd Tom Griffiths, a fu gynt yn organydd yn Capel Coch, Llanberis, un a roddodd fwsig ei fysedd i godi coed ffrwythau yno.

Daeth Granvillefab drosodd i Gymru yn 1887 ac arhosodd am dri mis. Dyma'r flwyddyn y cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Llundain ac, yng nghyfarfod yr Orsedd yn Hyde Park bore Mawrth, Awst 9, galwyd a chyhoeddwyd enwau Granvillefab a William Ap Madoc (1844-1916), bardd a cherddor o Faesteg ac yna Chicago, fel cynrychiolwyr beirdd America. Pan ddychwelodd yn ei ôl i'r America symudodd i Denver, Colorado, ac arhosodd yno hyd gwanwyn 1888, pryd yr aeth yn ei ôl drachefn i San Fransisco, lle bu'n arweinydd côr meibion.

Dyma symud eto yn 1889, y tro hwn i Exeter, 26 milltir o Frisco, ger prifddinas Visalia, Sir Tulare, yn ardal hardd Parc Cenedlaethol Sequoia, oedd yn enwog am ei choed tal ac anferth. Yn y sir honno hefyd yr oedd mynydd uchaf y dalaith. Chwarae teg i Granvillefab, rhoddodd yr enw Penlan ar ei rans, sef enw cartref Ellen, ei gyn wraig yn Llanrug.

Yr oedd Sir Tulare yn un nodedig o dda i'r ffermwyr, cawsent brisiau rhagorol am bob math o nwyddau oedd ganddynt i'w gwerthu. Ar y gwastadoedd yr oedd coed alfalfa ar gyfer bwydo y gwartheg a'r ceffylau, a gwenith, ac yn y rhannau dwyreiniol oreannau, mefus a grapefruit. Gellid prynu y tir gorau yno am \$100 yr erw, mewn cymhariaeth â £300 yr erw yn y de yn Los Angeles. Rans 160 o erwau o dir oreannau gorau yn y sir oedd Penlan, cartref Granvillefab, ac ymhellach ymlaen Emma, a John S. Owen. Cymro a oedd yn was iddo. Ond yn foesol a chrefyddol, lle tlawd oedd Sir Tulare y degawd hwnnw, gyda'r fasnach feddwol yn uchel ei phen yno. Pa un bynnag, yno ffurfiodd Granvillefab gwmni efo R.H. Owens, o Sir Fôn a D.G. Hughes, Buarthau, Llanllyfni, o dan yr enw Gwaith Ithfaen Rocky Point. Cyflogwyd nifer o Gymry yno, lle yr oedd cyflawnder o ithfaen o'r math gorau - tebyg o ran lliw i gerrig enwog Quincy, Massachusetts yn y dwyrain, addas ar gyfer cofgolofnau ac adeiladau dinesig. Codwyd y llys-dŷ yn Sir King, a chofgolofnau enwogion yn ninas San Jose; y Swyddfa Bost yn San Fransisco a hefyd carchar Sir King, lle y defnyddiwyd 300 tonnelli o gerrig ithfaen o chwarel Rocky Point yn 1898. Dywed papur newydd y Tulare Advance Register, dyddiedig Medi 26, 1892, am Granvillefab a'r ddau frawd arall o ogledd Cymru: 'These gentlemen turn out work on granite second to none in the county, as samples of their work standing near amply testify. The output from these Works last year (1897) alone was in the neighbourhood of \$10,000.'

Elusen
CRONFA GOFFA R.H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth ymgeiswyr cymwys o ddalgylch YSGOL BRYNREFAIL am grantiau o'r gronfa uchod ar gyfer hyrwyddo addysg bellach yn cynnwys cyrsiau galwedigaethol blwyddyn academiaidd 2018-2019

Am ffurflen gais anfonwch at yr ysgrifennydd Mrs Heather Jones, 3 Maes Padarn, Llanberis, LL55 4TE.

cronfarhowen@aol.

Heatherjones37@aol.com

07867 982518

DYDDIAD CAU:
Hanner Nos 31 Hydref 2019.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Bae Caerdydd 2019



Llongyfarchiadau mawr iawn i bawb a fu'n cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd ar ddiwedd Mai. Fe wnaeth pob disgybl a gymerodd ran gynrychioli Ysgol Brynrefail yn wych a dod â chlod i'r ysgol.

Mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn fe ddaeth y Parti Bechgyn blynyddoedd 7 -9 yn drydydd gan gael y cyfle arbennig i berfformio ar lwyfan enwocaf Cymru yng Nghanolfan y Mileniwm. Roedd hwn yn brofiad bythgofiadwy i'r bechgyn – y mwyafrif ohonynt ym mlwyddyn 7 ac yn ôl yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud ar Radio Cymru maent yn bwriadu dal ati i gystadlu i'r dyfodol gan eu bod wedi mwynhau'r cyfle i gyfarfod fel criw i ymarfer dros y misoedd diwethaf yn fawr iawn.

Ar y nos Iau cynhaliwyd cystadleuaeth y bandiau a cherddorfeydd ysgolion uwchradd. Eleni roedd 11 yn cystadlu yn y gystadleuaeth hon. Mewn cystadleuaeth arbennig iawn o ran safon daeth Band Ysgol Brynrefail yn 3ydd. Diolch i bawb am deithio mor bell i gystadlu ac yn enwedig i'r rhai hynny na chyrhaeddodd adref nes ei bod yn 3 o'r gloch y bore!

Daeth Nanw Llwyd a Rachel Franklin hefyd yn 3ydd yn y ddeuawd offerynnol a Leisa Gwenllian yn 1af ar y llefaru unigol i'r disgyblion hyn ac yn 3ydd ar y Fonolog.

Yn ogystal â'r llwyddiannau uchod fe wnaeth Côr blwyddyn 7,8 a 9 a'r Parti Llefaru gynrychioli'r ysgol yn wych hefyd. Rhaid rhoi sylw hefyd i'r nifer o enethod fu'n llwyddiannus wrth ddawnsio gyda Angylion Kelly.

Diolch diffuant iawn i'r staff fu ynghlwm â'r paratodau; Anwen Edwards, Lowri Roberts a Huw Harvey am yr holl fisoedd o waith caled yn ymarfer ac i Gwenno Bebb a Sharon Griffith hefyd am yrru'r bws mini i lawr i Gaerdydd, ond yn fwy na dim wrth gwrs, diolch i'r bobl ifanc am eu amser a'u parodrwydd i ymarfer a chystadlu.

Un Cwestiwn



"Disyblion Blwyddyn 7 yn mwynhau'r gweithdy gyda Rhiannon ac Aled o gwmni teledu Boom Cymru heddiw. Roeddent yn cael clyweliadau ar gyfer rhaglen gwis newydd ar gyfer plant a phobl ifanc o'r enw Un Cwestiwn. Croes bysedd felly y bydd rhywun yn cael ei ddewis!"

Athletau



Pencampwriaeth Athletau Cymru
Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ym Mhencampwriaeth Athletau Cymru dros y penwythnos Mehefin 15-16:
Codey O'Donnell - 1af yn y Pwysau Dan 13, 3ydd yn y Picell
Brett Parkinson - 1af yn y Picell Dan 17
Georgia Parkinson - 2ail ras gerdded 3k

Tenis

Llongyfarchiadau i'r timau i gyd am eu perfformiadau mewn twrnament tenis ar ddechrau Mehefin. Llwyddodd 6 tim i fynd drwodd i'r rownd nesaf sef Bechgyn blwyddyn 7, Bechgyn blwyddyn 8, Genethod blwyddyn 8, Bechgyn blwyddyn 9, Genethod blwyddyn 10 a Bechgyn blwyddyn 10. Mae dyddiad y rownd nesaf i'w gadarnhau.

Noson Wobrwyo Chwaraeon Gwynedd a Môn 2019

Eleni bydd y seremoni yn cael ei chyflwynu ym MiwmarEs eleni ar y 2il o Orffennaf
Mae tim Pêl-Rwyd Dreigiau Brynrefs wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Tim y Flwyddyn.
Yn ychwanegol at hyn mae Anya Wharton blwyddyn 8 wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Merch y Flwyddyn oherwydd ei champau canwio. Pob lwc i bawb!



Dau o Flwyddyn 9 yng ngharfan pêl-droed dan 14 Gogledd Cymru.



Llongyfarchiadau mawr i Gruff Jones ac Osian Tomlinson blwyddyn 9 ar gael eu dewis i fod yn aelodau o garfan pêl-droed dan 14 Gogledd Cymru mewn gêm gynhaliwyd ar Fehefin 15fed.
Dewiswyd Gruff ac Osian ar gyfer carfan ranbarthol gogledd Cymru dan 14 ym mis Hydref ac maent wedi bod yn hyfforddi gyda'r FAW yn ystod pob gwyliau ysgol ers hynny.
Ddechrau Mehefin cawsant eu dewis o 30 o chwaraewyr rhanbarthol i fod yn y garfan yn cynrychioli Gogledd Cymru mewn gêm gyfeillgar yn erbyn De Cymru yng nghae pêl-droed y Drenewydd.
Maent yn awr yn gweithio tuag at gael lle yng ngharfan Cwpan Cymru sy'n gystadleuaeth dros ddeuddydd yn Wrecsam ym mis Gorffennaf. Pob hwyl i'r ddau ohonynt.

Ras Cefn y Ddraig.



Dyma hanes taith a wnes o Gonwy i Landeilo, dros y Carneddau, y Glyderau, ac yr Wyddfa ac ambell gopa arall ym mis Mai eleni. 'Dwi'n siwr fod pawb yn rhedeg pan yn blant. Ond wrth dyfu fyny am un rheswm neu'r llall, mae'r rhan fwyaf yn rhoi'r gorau iddi. Wedi fy magu yn Waunfawr gyda'r mynyddoedd bob ochr, roedd yn naturiol i redeg mynyddoedd. A wnes i erioed roi'r gorau iddi. Roeddwn yn lwcus fod clwb Eryri wedi sefydlu pan roeddwn yn blentyn gan gynnig sesiynnau hyfforddi a rasmus ble gwneuthum ffrindiau oes.

Ym Medi 1992 roeddwn yn ohebydd papur newydd yn ardal Conwy pan gynhaliwyd ras gyntaf Cefn y Draig. Er fy mod wedi redeg sawl ras, gan gynnwys yr Wyddfa, roedd rhedeg am bump diwrnod o gastell Gonwy i gastell Carreg Cennen yn Llandeilo a hynny dros bob mynydd posib yn swinio yn hurt. Ugain mlynedd yn ddiweddarach gwelais ffilm am yr ail ras i gael ei chynnal, a dal i feddwl na fydd yn bosib. Ond erbyn ras 2015 roeddwn wedi rhedeg gyda'r enillydd, Jim Mann, a sylweddoli, er ei fod ef ar lefel goruwch naturiol, efallai y gallai fod yn bosib i gwblhau. Daeth ras 2017 a gwylio camp Cymro lleol, Huw Jack Brassington yn cystadlu ac roeddwn yn meddwl fwyfwy am gymryd rhan. I fod yn onest roedd yn codi ofn ac roeddwn yn gyndyn o gymryd y cam.

Yn Ebrill llynedd bu farw fy mam, Marion, yn sydyn. Yn ei ystafell fyw roedd darlun, ac er ei fod yno ers 27 mlynedd a finnau wedi ei weld droeon, am y tro cyntaf fe welais ef. Un o gastell Cerrig Cennen yn Llandeilo. Deuddydd yn ddiweddarach daeth ebost gan y trefnwyr yn hysbysu fod ras nesaf Cefn y Ddraig yn cael ei chynnal ymhen blwyddyn. Wrth edrych ar y cwrs fe sylweddolais pa mor gryf oedd cysylltiad fy nheulu gyda rhannau cyntaf y ras. Wnes i ddim meddwl eilwaith, ac roedd yn rhaid cymryd rhan.

Mae'r diwrnod cyntaf o Gonwy dros y Carneddau i Lyn Ogwen, dros Tryfan ac y Glyderau i Pen y Pass cyn herio Crib Goch. Yna daw Carnedd Ugain, yr Wyddfa a'r Lliwedd cyn picio draw i Gallt y Wenallt a lawr i Nant Gwynant. Ar fore Llun oer a niwlog gyda chor meibion yn canu yn y castell toc wedi saith fe gychwynnodd y ras. Roeddwn yn rhedeg gyda ffrind Dylan Cole-Jones, o Deiniolen yn wreiddiol ond nawr yn byw i'r gogledd o

Brisbane yn Awstralia. O fewn deg cam ar waliau castell Conwy roeddwn wedi taro fy mhen mewn bwa isel yn y wal. Dechrau da. Roedd y rhan gyntaf mewn niwl a dim cyfle i fwynhau yr olygfa, ac roeddwn wedi edrych ymlaen gymaint at weld dyffryn Ogwen o'r Carneddau. Profiad rhyfedd yw rhedeg trwy niwl gyda cannoedd o redwyr, wrth i griwiau ohonynt ymddangos yn sydyn a diflannu yr un mor gyflym. Sgyrsiau brysiog nawr ac yn y man, a chofio bwyta rhywbeth, boed frechdan neu dynaid o gnau bob hanner awr. Mase'n bwysig rhoi digon o betrol yn yr hen beiriant! Cymhara rhai rasmus hir fel cystadleuaeth fwyta gyda rhedeg nawr ac yn y man. Dyma ardal teulu fy mam am genhedlaethau, byddai un hen daid, Robert Thomas yn cerdded o Fethesda dros y Carneddau i weithio'n y chwarel yn Llanfairfechan. Bydde hynny wedi bod ar ôl streic y Penrhyn. Wedi rhedeg am dros deir awr yn y niwl, cliriodd y cymylau wrth agoshau at Pen yr Ole wen. Gallwn weld lawr i ddyffryn Ogwen a draw am y Penrhyn, gyda'r fynwent ar yr allt i bentref genedigol fy mam, Mynydd Llandegai. Lledais fy mreichiau ac am ychydig o eiliadau bendigedig roeddwn yn rhedeg fel awyren, fel pan yn blentyn yn chwarae ar y tir comin ger cartref fy nain ble gwasgarom lwch fy mam yr haf diwethaf dros y rhedyn a'r nentydd bychain.

Yna roedd yn rhaid dringo ac esgyn Pen yr Ole Wen ac roedd yr haul yn tywynu erbyn hyn. Cyfle yn y maes parcio ger Llyn Ogwen i lenwi poteli dwr a rhoi eli haul cyn newid sanau gwlyb i daclo Tryfan. Dringfa serth yn yr haul, a llinell hir o redwyr yn chwysu fyny'r llwybr yn araf. Yna dros y cerrig bler cyn dringo'r Glyder fach (sydd yn teimlo yn ddim byd ond bach heddiw) ac mae'r cerrig rhydd a cynifer o redwyr ar y llwybr yn fy ngwneud yn nerfus iawn. Drosodd at y Glyder Fawr a heibio Castell y Gwynt, sydd yn edrych yn dywyll a bygythiol yn y cymylau, cyn disgyn y llwybr serth lawr i Pen y Pass. Lenwi poteli dwr eto yma cyn dringo fyny am Crib Goch. Mae'r tywydd yn sych diolch byth ac ond awel ysgafn, a dwi'n lloccio bwyd arbennig, cyfuniad o gnau a ffrwythau sych mae nghariad Rhiannon wedi bopi imi. Dwi'n mwynhau'r rhan yma ac yn gwenu cyn esgyn i Garreg Ugain Draw at yr Wyddfa, ble mae'r ymwelwyr fel morgrug ac ysbwriel y poteli a phapurau yn britho'r llethrau.

Esgyn llwybr carregog at Lliwedd a dewiswn na fyddem yn ei dringo ond yn rhedeg ar ei hochr. Y syniad oedd ceisio manteisio ar ein gwybodaeth leol, ond dwi ddim yn meddwl i Dylan na fi ennill unrhyw amser chwaith! Mae'r llwybr i Allt y Wenallt yn teimlo'n ddi-ddiwedd cyn rhedeg heibio'r hen waith copr ac yna i Nant Gwynant ar y llwybr Watkin. Mae'r gwersyll o bebyll glas yn ein disgwyl. Newid i ddillad cynnes cyn sgloffio tatws, reis a chips yn y babell fwyd, a setlo i yfed paneidiau o goffi gyda sawl cacen siocled. Mae'r ddau ohona ni yn teimlo'n hapus efo'r cymal heddiw ac yn teimlo'n barod am y nesaf, yr un mwyaf heriol medd eraill. Mae'r rheiny, fel ffrind arall imi, Dan Willaims, sydd wedi methu a chyrraedd Pen y pass mewn amser, yn gorfod tynnu allan o'r ras yn swyddogol. Ond fe gawn nhw ddal ati redeg bob dydd. Cymer dipyn o gymeriad i ddal ati gan wybod na fydd nhw yn gorffen yn swyddogol ac yn cael y ddraig fach efydd. Cychwynnodd 405 y ras yng Nghonwy. Dim ond 256 a fydd yn cwblhau.

Mae wyth ohonom yn y babell, ac mae dau wedi methu'r amseroedd ar y diwrnod cyntaf. Rydyn yn lwcus fod y tywydd yn sych a dwi'n disgyn i gysgu er gwaethaf ambell chwyrnu yma ac acw. Ryde ni'n deffro toc wedi 4.30am ac mae'n goleuo wrth fwyta uwd cynnes. Mae'n argoeli fod yn ddiwrnod braf a dwi'n gwisgo dillad glan a rhoi digon o eli haul cychwyn. Gwneud siwr fod popeth yn rycsac ar fy nghefn a ryde ni cychwyn toc wedi hanner awr wedi chwech. Mae'r fillir a hanner cyntaf ar ffordd gul cyn troi am y Cnicht sy'n codi'n serth o'n blaenau. Rydym yn dringo yn y cysgod ond erbyn y copa mae'r haul yn tywynu a taflwn ein hunain lawr y llethr serth at y ddau lyn cyn anelu am lwybr y Moelwyn Mawr. Dwi wedi yfed dwy botel ddwr yn barod a mi fyddai angen chwilio am nant neu lyn yn fuan. Fel llawer i redwr yn y ras arall dwi'n cario potel arbennig sydd yn ffiltro a glanhau y dwr. Cyrhaeddwn gopa y Moelwyn Mawr cyn troi am ei frawd bach. Mae'r rhedwyr yn drwch ar y llwybr yma gyda'r rhai cyflym wedi cychwyn yn hwyrach ond yn pasio pawb tra fod y rhai araf wedi cychwyn yn gynt ond ryde ni nawr wedi eu dal. Dilynwn y llwybr i Maentworg a llenwi ein poteli yn yr afon. Mae'r llwybr yn dringo'n serth at Lyn Trawsfynydd trwy'r goedwig. Dringo eto i gyrraedd y llwybr nesaf sy'n ein harwain heibio llynoedd Eiddew Bach a Mawr, gyda'r golygfa draw am Ben Llyn a Llanbedr a'r mor yn arbennig. Hwn ydi'r lle sy'n teimlo fwyaf anial ac anghysbell dwi erioed wedi bod ynddo yng Nghymru. Dwi'n falch yn dawel bach fod yr haul yn disgleirio. Erbyn cyrraedd llyn Cwm Bychan rydym yn barod i gael llenwi ein poteli, newid sanau eto a stwffio ein bagiau gyda mwy o fwyd ar gyfer y pnawn hir o'n blaenau. Enw'r rhan nesaf yw'r grisiau Rhufeinig, er mai llwybr a grewyd yn ystod y canoloesoedd ydi mae'n debyg i alluogi masnachwyr gyrraedd Harlech yn gynt na mynd trwy Maentwrog. Yna cwyd y Rhinog Fawr a'r ddisgynfa i Gwm Nantcol. Ryda ni'n lwcus fod rhedwyr profiadol o'n blaenau a medrwn ddilyn eu camau nhw trwy'r pentyrrau o gerrig gymaint a cheir ar hyd y llethrau serth. Llwybr heibio llyn Hosan cyn fod llethr arall am y Rhinog fach. Disgyn eto cyn dringo'r llethr (enw addas i fynydd os fu un erioed) ac yna tir corsiog llawn brwyn a cherrig cyn cyrraedd dringfa olaf y dydd, am Diffwys. Mae'r olygfa lawr at Aberdyfi yn drawiadol, a dwi'n cofio'r adegau y bum yno gyda fy meibion Eban a Mabon a mam.

Mae'n chwech milltir lawr i'r dyffryn ac yna i'r gwersyll ger Abaty Cymer ger Dolgellau ac mae'r haul yn gynnes ar ein cefnau. Cyrraedd yn yr heulwen yn teimlo'n hapus. Mae'r deuddydd cyntaf wedi mynd yn dda, ryde ni'n mwynhau'r bwyd ac yn cael cawod boeth. Daw Dan fy ffrind i'r gwersyll hanner awr cyn iddynt gau am y dydd, ac ryde ni oll yn ei helpu wisgo dillad cynnes a bwyta cyn mynd i gysgu.

Mae'r trydydd diwrnod yn gwawrio yn oerach a llwyd, gyda niwl dros gopa Cadair Idris. Uwd eto i frecwast a heddiw dwi am ddefnyddio y ffyn cerdded i helpu ar y

dringfeydd. Hwn yw'r diwrnod pellaf. Cyrhaeddwn gopa Cadair Idris a rhaid gwisgo cot oherwydd yr oerfel ac mae rhedwyr ar draws ei gilydd ymhobman. Dwi rwan yn mentro i dir newydd ac anhygfarwydd ac mae'n gwneud imi deimlo'n eithaf nerfus. Ond mae'r rhedeg yn mynd yn dda a ryde ni'n mynd heibio sawl rhedwr.

Wrth gyrraedd tref Machynlleth a chyfle i brynu danteithiopn yn y siopau. Mae fy ffer chwith yn dechrau brifo. Dros yr oriau nesaf mae'n gwaethygu a chwyddo wrth i ni ymlafnio fyny'r llwybr am Pumlumon. Dwi'n dewis y llwybr anghywir sy'n golygu colli amser ac ynni, a dwi'n teimlo'n hen a blinedig iawn yn cyrraedd y gwersyll y noson yna. Dan sydd yn fy helpu i heno gan fy mod yn sal. Dwi'n cychwyn y pedwerydd diwrnod yn anelu am Cwm Elan ond mae'r anaf yn gwaerthygu a fedrai wneud dim ond cerdded yn gyflym. Mae Dylan yn aros gyda mi, gan daflu cyfle am amser da i'r ochr i gadw cwmni a fy helpu. A dyna un nodwedd o'r ras, y cyfeillgarwch dwfn sydd yn cael ei greu a'i selio wrth i bobl wynebu anhawsterau a helpu eraill. Mi fyddai'n cofio'r brawdoliaeth a'r gymuned gefnogol yna tra fyddai fyw. Ras dra gwahanol ydi hon bellach. Fawr neb yn rhedeg yn y cefn a phawb yn edrych yn ofnus ar eu horiawr, gan boeni na fyddwn yn cyrraedd y gwersyll mewn pryd. Dwi'n cofio teimlo'n oer iawn a bod y llwybrau o'n blaenau at y Drygarn yn teimlo fel petae nhw fyth am orffen. Mae wedi hen dywyllu wrth i ni orffen a fedrai fwyta dim ond cacen heno.

Dwi'n deffro fore Gwener a mae fy ffer yn brifo'n syth. Fedrai ddim edrych arni ond mae'r esgid yn dynn gan ei bod wedi chwyddo gymaint. Dwi ddim yn cofio llawer o'r bore heblaw fod Dan wedi fy helpu gyrraedd y pwynt hanner ffordd, ac roedd Dylan yn sal heddiw, fel llawer i un arall. Ond dwi'n cofio'r becws yn Llanymddyfri a phrynu pizza Chorizo a pot o iogwrt a bwyta'r rheiny dros y milltiroedd nesaf. Mae hynna yn un o fy atgofion cryfaf am yr wythnos wedi dyddiau o fwyta bwyd sych a diflas, heblaw am jelly babies lliwgar. Nodwedd arall o'r ras oedd fod y rhedwyr cyflymaf gan fwyaf yn cyfarch pawb wrth eu pasio, a neb yn fwy cynnes ei gyfarchiad cefnogol na Jim Mann a fyddai'n gorffen yn ail eto eleni. Mae geiriau a chwarteisi fel yna yn arwydd o barch sydd yn cael ei werthfawrogi yn fawr. Fel petae Gareth Bale yn pasio ac yn eich gweld yn cicio pel (yn wael) ac yn dweud 'da iawn, dalia ati.'

Roedd y cymal dros y Mynyddoedd Du yn heriol iawn gyda'r tywydd yn oeri a glaw trwm yn disgyn am y tro cyntaf. Roeddwn yn falch o gyrraedd y ffordd eto, ac yn rhedeg / hercian erbyn hyn gyda Ffrancwr ifanc, Remi Alex, sydd yn byw yn Cork. Sgwrsio ac annog ein gilydd a chyfeillgarwch oes arall wedi selio. Roedd gweld Castell Carreg Cennen wrth i'r haul fachlud yn berffaith, a ryda ni'n gwrthio'n gilydd ymlaen dros y milltiroedd hir olaf. Mae trefnydd y ras wedi cael dipyn o hwyl dwi meddwl yn dewis llwybr sydd yn golygu gorfod dringo dros sawl camfa uchel. (Dwi'n addo i fy hun fy mod am gynnig gair o gyngor iddo at y tro nesaf!) Yna gwelwn y goleuadau a clywn y swn o'r bobl ar y llinell derfyn. Mae'n dywyll fel arall ac mae Remi yn gweiddi "Allez, Allez" gan redeg, rhywsut yn ei flaen, ac felly does dim dewis gen i ond gwneud yr un fath er fod fy ffer yn llosgi a croeswn y linell derfyn gyda'n gilydd. Dengys Matt Ward (ffrind rhedeg bore oes o Gwm y Glo yn wreiddiol) sy'n sylwebu ar y ras ei oriawr imi. 10:58pm. Llai na dau funud mewn llaw, ond ryda ni wedi gorffen ac dwi'n gwybod mi fydd y ddraig fach lliw efydd yn dod adref gyda mi y noson yna. Dwi'n siwr bydde mam wedi bod yn falch.

Llion Tegaid

Merched y Wawr



Ar nos Fawrth, 11eg Mehefin, ac er gwaethaf gerwinder y tywydd cychwynnodd criw hwyliog o ugain o aelodau Merched y Wawr, o dan arweinyddiaeth eu Llywydd, Bethanne, ar eu gwibdaith flynyddol a'r tro hwn cyrchu am Nant Gwrtheyrn fu eu hanes.

Yn Nant Gwrtheyrn bu cyfle i ymweld â'r Capel a Thŷ'r Cyfnod cyn ymlwybro i gynhesrwydd Caffi Meinir. Nid oedd diwedd ar y sgwrsio byrlymus dros bryd ardderchog o fwyd nac ychwaith ar eu mwynhad o'r olygfa tuag at y môr gyda'r haul yn machlud maes o law.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan nifer o aelodau nad oeddent yn gallu bod yn bresennol oherwydd ymrwymadau eraill. Anfonwyd cofion at Menna, Susan ac Eirianwen; mae Menna a Susan yn gwella yn dda ac yn edrych ymlaen i ddychwelyd ym mis Medi ac mae Eirianwen yn parhau i gryfhau bob dydd. Nodwyd fod taith gerdded Rhanbarth Arfon wedi ei gohirio tan

13eg Medi a gofynnwyd i'r rhai sydd am ymuno â'r daith roi eu henwau i Mary erbyn dechrau mis Medi. Derbyniwyd llythyr gan Ann Ifans yn diolch am gyfraniad y gangen tuag at Eisteddfod Penisarwaun. Dyfarnodd Swyddogion Cenedlaethol y Mudiad fod rhaglen y gangen am y flwyddyn 2018 – 2019 yn haeddu canmoliaeth uchel ac yn y Cyfarfod Blynyddol eleni derbyniodd Pat y dystysgrif ar ran y gangen.

Cynhelir cyfarfod trefnu rhaglen 2019 – 2020 yn y Sefydliad Coffa ar 25ain Mehefin am 7:30 o'r gloch a bydd hyn yn gyfle hefyd i bennu dyddiad ar gyfer ymarfer tuag at y Gwasanaeth a gynhelir ar fore Sul, 8ed Medi, yn y Penwythnos Preswyl ym Mangor. Cytunwyd i fynd o gwmpas Llanrug gyda Meirwen i gasglu sbwriel, fel rhan o Brosiect y Llywydd Cenedlaethol; y trefniant yw i bawb ymgynnull o flaen y Sefydliad Coffa am 2 o'r gloch y prynhawn ar ddydd Mercher, 3ydd Gorffennaf.

Diolchwyd i Ann Lloyd am drefnu noson gofiadwy a difyr dros ben a thrwy ryw ryfedd wyrth fe giliodd y glaw yn ystod y wibdaith. Diolchodd Bethanne i'w chyd-swyddogion am gydweithio effeithiol a hapus yn ystod y flwyddyn a aeth heibio ac am gefnogaeth yr aelodau. Diolchodd Nan, y darpar Lywydd ar gyfer y flwyddyn 2019 - 2020, i Bethanne am ei llywyddu graenus.

Cynhelir cyfarfod cyntaf tymor 2019 – 2020 yn y Sefydliad Coffa ar nos Fawrth, 11eg Medi, am 7:30 o'r gloch. Cofiwch fod croeso cynnes i aelodau newydd.

Parhad LLANRUG



Clwb Clychau'r Grug Cafwyd noson gartrefol braf nos Wener, Mehefin 14, yng Ngwesty'r Celt. Byddwn yn cyfarfod bnawn Gwener, Gorffennaf 26ain, yn Holland Arms am 2.30 y pnawn. Anfonwn ein dymuniadau gorau - yn aelodau a chyn aelodau Clychau'r Grug i'n harweinydd dawnus cyntaf, Mrs Nansi Lovatt, fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ddydd Mercher, Gorffennaf 17, gan ddiolch iddi am flynyddoedd o fwynhad yn gerddorol a chymdeithasol. Pen-blwydd hapus iawn i chi, Mrs Lovatt. Ein cofion hefyd at ein cyn-arweinydd Glenys a'i gŵr Siencyn. Gobeithio eich gweld yn y Steddfod.

Diolch Dymunwn fel teulu'r ddiweddar Jennie Owen, 7 Hafan Elan, ddiolch yn ddiffuant am bob cefnogaeth a chydymdeimlad a roddwyd inni yn dilyn colli Mam yn ddiweddar. Gwerthfawrogwn yr ymweliadau, cardiau a'r rhoddion hael er cof amdani. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth ac i Gwmni Ifan Hughes, Llanaelhaearn, am eu trefniadau gofalus a thrylwyr ddiwrnod yr angladd.

Diolch arbennig i holl staff Meddygfa Waunfawr a Llanrug am eu gofal rhagorol drwy gydol ei chyfnod yn Llanrug.

Roedd y chwe blynedd y bu Mam fyw yn Llanrug yn rhai hapus, prysur a llawn. Ymgartrefodd yma'r syth a daeth yn ffrind i lawer yn yr ardal, yn arbennig trigolion Hafan Elan a'r gymdeithas unigryw sydd yno.

Anwen, Mary, Aian Richard a Noel.

Diolchiadau Dymuna Carys, Rolant a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain arbennig iawn. Diolch hefyd am y rhoddion hael sy'n cael eu rhannu rhwng Cartrefi Plas Pengwaith a Ceris Newydd.

Babis Newydd Llongyfarchiadau mawr i Dafydd a Cerid McKinnon, Fferm Plastirion, ar ddod yn daid a nain eto, y tro hwn i Bethan a Sean Cortey ar enedigaeth Erin Eirwen yng Nghaer. Pob dymuniad da i chi i gyd.

Daeth Ann a Celfyn, Bryniau Fawnog, yn daid a nain ddwywaith mewn ychydig amser. Ganwyd Elis Wyn i Gareth a Rhian yn y Waunfawr, ac Owain Rhys i Ceri a Gerallt yn y Felinheli. Mae Mrs Megan Jones yn hen nain i'r plantos a bydd angen cofio am fwy o ben-blwyddi rŵan!

Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.

Cydymdeimlad Dymunwn gydymdeimlo hefo Bethan a Joni Richardson, 11 Stad Minffordd, yn eu tristwch o golli mam a mam yng nghyfraith annwyl, sef Buddug Roberts o'r Wyddgrug.

Profedigaethau

Mae wedi bod yn wythnosau trwm iawn yn y pentre yn ddiweddar, gyda gwaeledd a marwolaethau. Diolch fod sawl un yn gwella erbyn hyn ond cydymdeimlwn yn arw gyda theuluoedd y canlynol:

Gwynfor Williams, Bethel, gŵr annwyl Eirian, tad Kelly, Katie, Danny a Betsan a thaid arbennig. Magwyd Gwynfor ym Mro

Rhyddallt, lle mae ei chwaer Margret yn dal i fyw. Cydymdeimlwn yn ddiffuant hefyd gyda'i frodyr, ei deulu yng nghyfraith a Rhiannon, Clawdd Newydd. Colled fawr i chi fel teulu.

Yn frawychys o sydyn bu farw Iorwerth Williams, Cartref Melys, yn 87 mlwydd oed. Er ei fod wedi bod yn wael ei iechyd am gyfnod hir roedd bob amser yn falch o gael sgwrs wrth y giât hefo pawb. Bydd yn golled fawr i'w deulu, Anwen ac Alwyn, Bethan, lanto a'u teuluoedd hwythau. Cydymdeimlwn â chwithau hefyd. Wedi cyfnod hir o salwch a brwydro mor galed yn ei erbyn, bu farw Gwilym Rees Parry, Morannedd, yn 76 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn fawr gyda Gareth, Sue, David, Mathew a Emma, ei frawd a'i deulu.

Bu Gwilym yn weithgar iawn yn y pentre erioed ac yn garedig dros ben, yn enwedig gyda thrigolion Hafan Elan, lle y bu ei fam yn byw. Trefnodd lawer o deithiau pell ac agos gyda chwmni bysiau a chael llawer iawn o hwyl efo pawb. Bydd colled fawr iawn ar ei ôl gan ei deulu a ffrindiau agos, a fu hefyd mor garedig hefo fo yn y misoedd olaf.

Cydymdeimlwn hefo chi i gyd.

Salwch Cofion gorau am wellhad buan i Mona Mai Griffith, 3 Hafan Elan, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

Cymorth Cristnogol

Diolch o galon i bob un o'r gwirfoddolwyr fu'n casglu o dŷ i dŷ at yr apêl eleni. Cyfanswm casgliad Llanrug oedd £1,139 - sy'n anrhydeddus iawn.

Eglwys Sant Mihangel

(Yn yr Institiwt - Llanrug)



Ar y Sul cyntaf o bob mis rydym yn cynnal gwasanaeth anffurfiol dwyieithog (steil Café) yn yr Institiwt.

Amser o addoli a gweithgareddau ar gyfer pob oedran i rannu ac addoli gyda'n gilydd ynghyd a phaned a bisgedi.

Os yw hyn yn swnio'n ddiddorol i chwi pam na ddowch ymlaen i gael gweld dros eich

☺☺ yn sicr o groeso cynnes iawn☺☺

Gwasanaethau Nesaf: Goffennaf 7 ac Awst 4 @ 10.00 o'r gloch

Capel y Rhos

Oedfaon Gorffennaf ac Awst

Gorff 7 Parch. Marcus W Robinson a gweinyddir Cymun

14 Parch. Hugh Pritchard

21 Y Gweinidog


28 Parch. Elwyn Hughes

Awst 4 Parch. Gwynfor Williams

11 Parch. Olwen Williams

18 Parch. Elfyn Richards

25 Mrs Nerys Griffiths



GWAITH
COFFAOL
LLANRUG

Ffôn Gwaith
(01286) 672898

Cartref
(01286) 871833

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol

24 Awr y Dydd

Capel Gorffwys Preifat

Yn Gwasanaeth Yr Holl Ardal

Ffoniwch

ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Gŵyl Deiniolen



Cafwyd dechrau ardderchog i Wyl Deiniolen eto eleni gyda chyngerdd coroni yn Eglwys Crist Llandinorwig nos Sul, y 16eg o Fehefin. Cawsom ein diddanu gan blant Ysgol Gwaun Gynfi ac aelodau ifanc band Deiniolen a braf oedd gweld yr eglwys yn llawn ar noson wlyb a garw. Cymerodd pob un o'r plant eu rhan yn wych, a hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr i staff yr ysgol am eu hyfforddi ac i'r band a'u hyfforddwyr, yn ogystal a'r eglwys, am gynnal y noson eto eleni.

Uchafbwynt y noson oedd cael gweld y Frenhines a'i chwrt am y tro cyntaf, a hardd iawn oedd pob un ohonynt. Hoffai'r pwyllgor ddiolch eto eleni i Carolyn am ei gwaith diflino yn paratoi y plant pob blwyddyn.

Nos Fercher y 12fed o Fehefin cynhaliwyd ras 10k Deiniolen gyda chriw mawr yn troi allan yng nghanol y glaw. Martin Green enillodd ras y dynion ac Elli Haf yn ennill ras y merched.

Cyng. Elfed Williams Hoffai'r Cynghorydd ddiolch i blant ysgol Gwaun Gynfi am gasglu ysbwriel trwy'r pentref yn ystod mis Ebrill, casglwyd 10 bag. Yn ystod mis Mai, aeth 2 grŵp o aelodau Merched y Wawr ati i gasglu ysbwriel yn y pentref a mawr yw ein diolch iddynt i gyd am eu gwaith.

Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen

Cyfarfu'r aelodau ar Fai 28ain. Derbyniwyd 4 cais am gymorth a dyfarnwyd cyfraniadau fel a ganlyn:

Clwb Snwcer; £600

Merched y Wawr: £300

Ysgol Feithrin: £700

Seindorf Arian Deiniolen: £700.

Er gwybodaeth fe sefydlwyd y Gronfa yn wreiddiol yn ôl yn 1980 ac ers hynny, mae cryn filoedd o bunnoedd wedi eu rhannu rhwng mudiadau'r pentref sydd wedi rhoi cais am gymorth. Mae ffigwr o oddeutu £2,000 yn arferol yn cael ei rannu bob rhyw 2 flynedd. Mi fyddai'n braf gallu rhannu mwy gyda mudiadau'r pentref, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd ariannol anodd presennol, ac felly gofynnir yn garedig pe byddai unrhyw un yn dymuno cyflwyno rhodd i'r gronfa, fe'i rhoddir tuag at yr arian arferol gan obeithio y byddwn yn gallu rhoi mwy o gymorth i fudiadau'r pentref yn y dyfodol. Ysgrifennydd y Gronfa yw Glyn Gruffudd, 3 Hafod, Clwt y Bont LL55 3DG

Eglwys Crist Dydd Sul, Mehefin 23ain, cafwyd Gŵyl Bregethu a Dydd Rhoddion blyneddol yr eglwys. Y pregethwr gwadd eleni oedd y Parch. Llew Moules Jones gyda'r Canon Idris Thomas yn arwain y gwasanaeth. Nos Iau, Mehefin 13eg, cynhaliwyd cyfarfod yn yr eglwys gydag Archddiacon Bangor. Ar dydd Sadwrn, Mehefin 8fed, daeth llond bws o gapel Lôn y Felin, Llangefni, a ffrindiau ar ymweliad â'r ardal gan fwynhau eu hymweliad yn fawr iawn. Canmolwyd y Canon Idris Thomas am ei waith fel tywysydd bro. Tra yn Eglwys Llandinorwig mwynhaodd pawb baned o de a diolchir i Eileen Hughes, Rosina Worth, Ann Thomas a Brian Price am eu gwaith. Diolchir i'r grŵp o Fôn am eu rhodd hael i'r eglwys. Bydd gwibdaith arall yn dod i'r ardal ym mis Medi.

Profedigaeth Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu'r diweddar Elfed Williams, 77 Pentre Helen. Mi fydd colled mawr i'w deulu, ffrindiau a chymdogion ar ei ôl.

Y Gymdeithas Lenyddol Wrth ddarllen ein Papurau Bro - mae'n bleser gweld pa mor boblogaidd yw y Gymdeithas Lenyddol ym mhentrefi Cymru. Yr amrywiaeth o siaradwyr sydd yn dod i sgwrsio neu i roi noson o adloniant.

Yma yn Neiniolen rydym wedi bod yn hynod ffodus o gael cyfarfodydd tros y blyneddoddd, gan ddarford bob tymor gyda phryd o fwyd. I drefnu rhaglen mae'n rhaid wrth wirfoddolwyr ac nid tasg hawdd yw trefnu siaradwyr. Tros y blyneddoddd mae Y Parchedig John Pritchard, Mrs Jane Thorman Jones a Mrs Eirian Jones, wedi bod yn paratoi ar ein cyfer bob mis, a mawr yw diolch y Gymdeithas iddynt.

Wedi seibiant o dymor penderfynodd Glyn Cynfi Gruffudd y buasai yn dda ail ddechrau y Gymdeithas, aeth Glyn ati i lunio rhaglen amrywiol, a da oedd cael ail ddechrau y Gymdeithas. Daeth Mrs Rhian Jones ymlaen fel Trysorydd ynghyd â'r Parchedig John Pritchard, yn gefn ac yn gymorth.

Hyderwn y bydd llwyddiant eto y Tymor nesaf i ddenu siaradwyr, er mwyn i ni bentrefwyr gael pleser a mwynhad o gymdeithasu a gwrando.

Mynwent Eglwys Crist Diolch i Mr Berwyn Jones, am ofalu bod y fynwent yn cael ei thorri yn rheolaidd. Mae'n sefyll allan yn y llecyn yma rhwng Deiniolen a Dinorwig - I gario y gwaith ymlaen diolch i chwi garedigion am eich cyfraniadau:

Mrs M.C. Jones, Tan y Caerau - £10

Mrs Dilys Williams, Penisa'rwaen - £20

Mr & Mrs John Parry, Penygroes - £20

Mr Meirion Thomas, Tai Caradog - £50

Mr Owie Gibson, 17 Hafod Oleu - £10

Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron - £10

Mrs Betty Jones, Tan y Buarth Uchaf - £10

Mrs Gracie Tate, 1 Bro Deiniol - £20

Bydd Mrs Gwen Griffith, Fron neu Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu, neu unrhyw aelod o Eglwys Crist yn falch o dderbyn eich cyfraniadau.

Cyn ysgrifennu dim i'r Eco y mis yma, mae yn rhaid imi ymddiheuro yn fawr iawn i deulu y ddiweddar Mrs Buddug Roberts, er fy mod wedi derbyn y wybodaeth o lygad y ffynnon, mae yn amlwg nad ydoedd yn gywir, felly dyma roi y wybodaeth yn gywir y tro yma.

Marwolaeth Mrs Buddug Roberts

Yr oedd Buddug wedi priodi hefo Mr Hughie Roberts, Bronallt, cyn gymydog i mi, ac fe fu iddynt gartrefu yn yr Wyddgrug, lle y ganwyd iddynt un ferch, sef Bethan. Ar ôl gwaeledd hir fe fu i Buddug farw ar 13eg o Fai wedi salwch hir a chreulon. Yn ystod y dyddiau hir a chreulon bu i Hughie a Bethan fod yn hynod o garedig hefo hi. Ar 23ain o Fai bu ei hangladd lle y cafodd ei chladdu ym mynwent Coetmor, Bethesda, yn ôl ei dymuniad ei hun. Yr oedd y gwasanaeth yma yn hollol breifat. Yna yn y prynhawn yr un diwrnod bu gwasanaeth yn gyhoeddus yng nghapel Bethesda, yr Wyddgrug, i gofio am Buddug, lle yr oedd y capel yn orlawn ac i'r sawl sydd yn gwybod am gapel Bethesda, yr Wyddgrug, mae yn gapel mawr felly does dim rhaid dweud pa mor boblogaidd ydoedd Buddug. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal ei gweinidog, y Parch Nan Powell Davies.

Unwaith eto Hughie a Bethan a'r teulu oll, derbyn fy nghydymdeimlad llwyraf â chwi, deall fod Bethan wedi dy adael erbyn hyn am ei chartref yn Llanrug.

Unwaith eto Hughie, ymddiheuraf yn fawr am y gwall a diolch i chdi am roi maddeuant mor rhwydd imi a gobeithiaf gael dy weld yn reit fuan a chael sgwrs hefo chdi ac Emrys ar y ffôn unwaith yn rhagor, gan gofio am yr hen ardal ac ateb llawer cwestiwn fel arfer am yr ardal.

Diolch unwaith eto am gael maddeuant.

Pen-blwydd Hapus Llongyfarchiadau mawr iawn i Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, ar ddathliad ei phen-blwydd yn 104 oed ar y 11eg o'r mis yma. Yn ôl a ddeallaf oddi wrth Eurwyn fod wyth o'r teulu wedi cael diwrnod i'w fwynhau a phob peth wedi mynd yn ardderchog. Marsli wedi cael dod adref unwaith eto i weld mam a'r ferch wedi ei dilyn i weld nain, a phawb wedi gadael yn fwy na hapus iawn.

Unwaith eto, Mrs Morris, pawb o Gymry yr ardal yn falch iawn o ddeall eich bod wedi mwynhau eich diwrnod ac, wrth gwrs, diolch am ofal Eurwyn, Marsli a Nancy (gwraig Eurwyn) ohonoch. Does neb fel mam. Gobeithio y cewch weld blynyddoedd eto a chael nerth ac iechyd.

Pen-blwydd Hapus iawn, Mrs Morris, a diolch i Dduw am eich cadw ac am roi nerth i Eurwyn a Marsli gael mam i'r oed mawr yma. Gwyn eich byd a diolch i Dduw am eich cadw.

Gwyliau Erbyn hyn yr ydym yn awr yn edrych ymlaen at wyliau'r haf, gan obeithio am dywydd braf a dipyn o haul. Wrth gwrs, yr ydym yn edrych ymlaen am yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst. mae yn debygol mai yr hen deip o eisteddfod a fydd a gobeithio na fydd colled ariannol eleni! Rwyf yn deall eu bod wedi gweithio yn galed yn Llanrwst ac yn falch o ddeall nad yw wedi cael ei symud yn bell o'r lle yr oedd i fod.

Gobeithio y caf fynd yno a chael cwrdd â llawer o hen ffrindiau ar y maes. Dod ar draws hen ffrindiau eisteddfodol a chael rhyw sgwrs hefo hwy a dal i fyny hefo blwyddyn o newyddion.

Dim ond gobeithio y bydd i'r glaw gymryd gwyliau dros yr eisteddfod hefyd, fu fydd hyn yn dipyn o fonws.

Felly dymunaf wyliau hapus a dedwydd i bawb o ddarllenwyr yr Eco.

Cofiwch na fydd Eco y mis nesaf.

Cydyndeimlo: Estynnwn ein cydyndeimlad tuag at Norman (Llyn Gele) ac Eirian (Annedd) a'u teuluoedd yn dilyn eu profedigaeth o golli eu Tad, Tad yng Nghyfraith, Taid a Hen Daid yn ddiweddar.

Capel: Gwasanaethau

Ar y 7fed o Orffennaf bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Marcus Wyn Robinson am 2:00pm. Bydd cyfarfod Swyddogion i ddilyn am 3:00pm.

Ar yr 21ain o Orffennaf bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Huw Dylan Jones am 2:00pm. Llywydd mis Gorffennaf yw Clive James – gellir cysylltu â Clive ar 01286 674806.

Dosbarth Celf: Ers nifer o flynyddoedd mae Marie Pritchard, Plas yr Aur, Caernarfon, wedi cynnal dosbarthiadau Celf i Bawb yng Nghanolfan y Capel. Mae ffrwyth gwaith y dosbarth a dosbarthiadau eraill y mae hi'n eu dysgu i'w gweld mewn Arddangosfa Haf yng Nghanolfan Beaumaris (LL58 8AL) rhwng y 29ain o Fehefin a 2Sain o Orffennaf. Beth am wibdaith dros Y Fenai? A beth am fynychu'r dosbarth yn yr Hydref?

Da iawn: Llongyfarchiadau i holl blant y pentref a gymrodd ran a phrofi llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd fis Mai. Da iawn blant!

Diffibriliwr: Ar y 10fed o Orffennaf am 7:00pm yng Nghanolfan y Capel bydd noson i addysgu a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â diffibriliwr y pentref sydd wedi'i leoli yng Ngarej Gwalia yng nghwmni Tomos Hughes o elusen Achub Calon y Dyffryn. Croeso i bawb.

Tynfa Misol: 1af (£40) – Rhif 49: O'Grady (Tyddyn Whisgin); 2il (£25) – Rhif 88: Heledd Jones (5 Rhes Glan Gwna); 3ydd (£15) – Rhif 51: Dafydd Roberts (Bryn Teg); 4ydd (£5) – Rhif 53: David Jones (1 Bryn Gof).



GWASANAETH DYLUNIO GERDDI

Yn adnabyddus fel un o gyflwynwyr Garddio a Mwy (S4C), mae Meinir bellach wedi hyfforddi fel dylunydd gardd - cysylltwch os ydych chi'n awyddus i roi bywyd newydd i'ch gardd.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cynnal a chadw'ch gardd am bris rhesymol gan gynnwys:

**TORRI GWAIR A GWRYCHOEDD
CYNNAL A CHADW LLWYBRAU A WALIAU
AILWAMPIO BORDERI**

Gyda chriw sydd â phrofiad helaeth o weithio'n broffesiynol mewn gerddi ac yn y byd adeiladu, gallwch fod yn sicr y byddwch yn cael y gwasanaeth gorau.

Cysylltwch am fwy o wybodaeth!
07854 374588 post@meinirgwilym.com



ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned
Waunfawr

COFNODION CYFARFOD MIS EBRILL YN FESTRI CAPEL CAEATHRO.

Presennol – Cadi Jones (Cadeirydd) Edgar Owen, Liz Daniel, Delyth Jones, Doug Jones, Erddin Llwyd, Shoned Rees Griffith (cofnodi)

Ymddiheuriadau – Menna Jones, Iwan Davies

Datganiad Buddiant - Dim

Derbyn Cofnodion 20.02.19 – Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod yn rhai cywir.

Materion yn codi o'r Cofnodion

Materion Caeathro

1. Ffordd Osgoi Bontnewydd – Gwaith wedi cychwyn ar safle.
2. Mainc Caeathro – Gwaith peintio y fainc i'w wneud, Cyng MJ i holi Clwb Cae Chwarae Caeathro os diddordeb.
3. Hen ffordd Caeathro i Bontnewydd – Aros am ddiweddariad
4. Hysbysfwrdd Caeathro - Cymdeithas Cae Chwarae am drefnu y gwaith i'w atgyweirio.
5. Troedffordd o Caeathro i Gaernarfon - bydd rhaid prynu tir er mwyn cael lle i'r droedffordd, Cyng EO yn cyfarfod â Swyddog o Gyngor Gwynedd i drafod ymhellach.
6. Troedffordd ger yr Hen Siop - i dderbyn sylw yn fuan gan Gyngor Gwynedd.

Materion Waunfawr

1. Biniau Baw Ci – Wedi eu gosod gobeithio y gwnaiff pawb eu defnyddio rwan.
2. Tacluso Pentref – Siomedig iawn fod sbwriel yn cael ei daflu ar y llawr yn y pentref, ac hefyd ar hyd y brif ffordd i'r pentref.
3. Les tir tu ôl i'r Ganolfan – Mewn trafodaethau. Cae aml dywydd – wedi derbyn copi o'r Pen Telerau gan Gyngor Gwynedd, bydd y gwaith i'w adnewyddu yn cychwyn yn fuan.
4. Arwyddion cyflymder (fflachio) – I'w drafod ymhellach
5. Cyflymder traffig drwy'r pentref – Wedi derbyn canlyniad y monitor cyflymder traffig oedd yn nodi bod yr amcan gyflymdra yn uwch na 30! Canlyniadau wedi eu hanfon ymlaen i 'Go Safe' - felly plis cymerwch ofal.
6. Gwefan y Cyngor – angen rhoid mwy o wybodaeth ar y wefan newydd.

Ymweliad Swyddog Cefnogi Cymunedau - yn gweithio ar hyn o bryd gyda phwyllgor y Ganolfan i drio cael grantiau i adnewyddu'r Ganolfan. Byddwn yn trafod ymhellach gyda'r swyddog ynglŷn â'r trac beics yn fuan, a sut i gael pobl ifanc y pentref i gymryd diddordeb yn beth sy'n mynd ymlaen.

Gerddi Bach – Dim pellach i'w nodi ar hyn o bryd.

Safle Glyn Rhonwy – Dim mwy i'w adrodd ar hyn o bryd.

Adroddiadau

1. Lloches Bws - wedi derbyn gohebiaeth ynglŷn â defnydd y lloches bws ger yr Hen Bost, angen monitro y sefyllfa.
2. Y Fynwent - Edrych i brynu darn o dir ychwanegol ar gyfer y dyfodol.
3. Llwybrau Cyhoeddus – Wedi cytuno ar y prisiau ar gyfer 2019/20.
4. Y Ganolfan- Cyfarfod blynyddol.

Materion Cynllunio

Dyddiad Cofrestru	Bwriad	Lleoliad	Rhif Cais	Sylwadau
26/03/2019	Estyniad cefn	1 Bryn Gof, Caeathro	C19/0276/26/LL	Dim gwrthwynebiad
22/03/2019	Ail leoli carreg filltir	Carreg Filtir, Ffordd Llanbeblig, Caernarfon	C19/0196/26/CR	Dim gwrthwynebiad
15/03/2019	Trwydded eiddo	Antur Waunfawr Waunfawr		I'w werthu gyda bwyd yn y caffi yn unig.

Mantolen 2018/19 - Cynigiwyd ac eiliwyd fod y fantolen yn gywir am y flwyddyn. Byddwn yn paratoi ar gyfer yr archwiliad blynyddol nawr. Rhoddion. - Derbynir ceisiadau am roddion gan fudiadau yn mis Ebrill a Hydref bob blwyddyn. Dyma'r rhestr o'r mudiadau a dderbyniodd roddion yn mis Ebrill 2019:

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru - £100.00

Ysgol Waunfawr - £1000.00

Cylch Meithrin Bontnewydd - £180.00

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd - £50.00

Eisteddfod Genedlaethol - £50.00

Ambiwlans Awyr - £100.00

Materion Eraill – Noson dathlu pen-blwydd Antur Waunfawr yn 35 oed yn y Galeri nos Sadwrn, 22.06.2019.

Bu Cymhorthfa yn y Ganolfan yn Waunfawr dydd Gwener, 26.04.2019, ble yr oedd Hywel Williams a'r Cyng Edgar Owen y bresennol.

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

GERAINT OWEN CARPEDI

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CARPEDI TEILS VINYL
DEWIS MAWR O BATRYMAU

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR

DEWCS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

HUW OWEN

PLASTRWR ADEILADWR LLEOL

22 BLWYDDYN O BROFIAD

Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159

Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG

Ebost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST

MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574



O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Ethol Swyddogion

Rhoddwyd gair o ddiolch gan y Cadeirydd Idris Thomas i'r aelodau am eu gwaith yn ystod y flwyddyn, ac am bob cefnogaeth dros y ddwy flynedd tra bu yn y gadair, a hynny trwy sawl cyfnod o benderfyniadau anodd.

Yr is-gadeirydd, y Cyngorydd Gareth Wyn Griffiths a etholwyd yn Gadeirydd a'r Cyngorydd Emma Chappell yn is-gadeirydd. Adolygwyd y polisiau Risg, Polisi Ariannol, Rheolau Sefydlog, Cytundeb Cyflogaeth, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, Polisi Data a Cofrestr Rheoli Risg

Seddi Gwag

Mae 2 sedd wâg gan Y Cyngor o hyd, sef 1 yn Neiniolen, ac 1 yn Bethel.

Cofnodion Cyfarfod 2ail Ebrill 2019

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Materion o'r cofnodion

LLoches Bws Penisarwaun – Derbyniwyd esboniad am y gôst i'r llwybr i fyny i'r cysgodfan. Er ein bod yn anhapus fod rhan o'r gwaith o godi cerbau i gydymffurfio â safonau cyfredol yn gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd, penderfynwyd mynd ymlaen a'r gwaith.

Arwydd Lôn Cae Metta – Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i roi arwydd ar y lôn o gyfeiriad lôn Crawia. Heb glywed dim gan y cwmni yswiriant ynglyn a'r fainc. Y clerc i ffonio.

Ciosg Rhiwlas – Atgoffa y trydanwr i wneud y gwaith.

CCG – Derbyniwyd llythyr yn nodi fod eu cais am grant i Lywodraeth Cymru i adeiladu tai ger Maes Gwylfa, Deiniolen wedi bod yn llwyddianus. Bydd y datblygiad yn cynnwys adeiladu 9 tŷ Newydd a fydd yn gymysgfa o unedau 2 a 3 ystafell wely a byngalo wedi ei addasu a fydd yn ateb y galw yn lleol am dai cymdeithasol. Os oes gan drigolion lleol ddiddordeb yn yr eiddo Newydd, bydd rhaid cofrestru gyda'r Tim Opsiynau Tai.

Gohebiaeth a materion eraill

LLythyr gan drigolion Brynrefail – Derbyniwyd llythyr yn gofyn i'r cyngor drefnu i gael ysgubo ffordd I lanhau ymylon ffordd y pentref a darn o ffordd gyswllt o ffordd ysgoi deheuol I'r pentref at Pont Injan. Hefyd rhoi sylw perthnasol i docio'n ôl gordyfiant sy'n ymwthio i'r ffordd gyferbyn a hen gapel a thy Bryn Parc. Y clerc i anfon y llythyr ymlaen ynghyd a llythyr cefnogol gan y Cyngor Cymuned.

Ceisiadau Nawdd I Eisteddfod yr Urdd – Derbyniwyd cais gan Ysgol Gwaun Gynfi am gyfraniad tuag at gostau cludo plant i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Bydd grŵp Dawnsio Gwerin Bl 3 a 4 ynghyd a'r Ymgom yn cystadlu yng Nghaerdydd ddiwedd y mis. Ni dderbyniwyd cais arall, ond mae'r cyngorwyr am holi yn eu pentrefi fel y gallwn gefnogi pawb yr un fath. Pob lwc a dymuniadau da i gystadlewyr yr ardal yn Gaerdydd.

Yswiriant y Cyngor – Derbyniwyd amcanbris yswiriant y cyngor sy'n ddyledus mis Mehefin. Adolygwyd y polisi llynedd i sicrhau fod y polisi yn cydymffurfio i anghenion Y Cyngor. Nodwyd fod yn rhoi gwerth am arian ac yn ddigon rhesymol eto eleni. Penderfynwyd ei dalu.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Gallod, Fachwen – Dymchwel yr estyniad presennol a chodi estyniadau Newydd. Dim Gwrthwynebiad

Tyddyn Difyr, Bethel – Estyniad deulawr ynghyd a chreu anecs. Dim gwrthwynebiad.

Bronant, Bethel - Estyniad i'r uned ddiwydiannol presennol ar gyfer storio cyfarpar offer yn ddiogel. Dim Gwrthwynebiad.

Blaen Cae Isaf, Deiniolen – Gosod Caban i'w ddefnyddio fel anecs. Dim Gwrthwynebiad

1 Dinorwig Cottage, Dinorwig – Newid defnydd llecyn o dir ar gyfer llecynau parcio a gardd

2 Rhes Penrhyn, Rhiwlas – Dymchwel yr estyniad presennol a chodi estyniad deulawr yn ei le

Fferm Cefn Llan, Bethel – Dymchwel annedd bresennol a chodi annedd deuol Newydd.

Ty Ni, Gallt y Foel – Cais i ddiddymu cytundeb 106 oddi ar gais cynllunio C07/A/0095/18/LL er mwyn diddymu'r angen i gadw'r tŷ'n fforddiadw'n barhaol.

Grwp Cynefin – Holi ynglyn a'r arian i wella cymuned yn dilyn adeiladu tai.

10. Mantolen Ariannol

Derbyniwyd y fantolen ariannol yn hollol gywir. Nodwyd dipyn o wahaniaeth yn yr hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl ar ôl yn falansau i beth y nodwyd ar y gyllideb, Mae yn ddigon gwir fod yna ambell i anfoneb i ddisgwyl ac yn hwyr yn ei dderbyn ddiwedd Mawrth, ac felly fod hyn wedi ei gario ymlaen i'r flwyddyn gyfredol. Fodd bynnag, mae rhan fwyaf o'r balans ychwanegol oherwydd bu y tywydd yn ffariol dros y gaeaf, ac felly nid oedd gofyn am wario ar graeanu ffyrdd.

Mae'r Cyngor yn ceisio anelu at wneud welliannau o fewn y gymuned a hynny yn golygu casglu arian hirdymor, gan fod cynifer o bentrefi o fewn y Gymuned. Awgrymwyd felly i edrych ar symyd y gormodedd yn falansau o dan adain "Projectau Cymunedol", eleni, a hynny o bosib yn digwydd yn flynyddol, lle bo angen, ond gan fod cyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol, ac yn cael ei adolygu yn chwarterol drwy'r flwyddyn, bydd yr arferiad a'r amcangyfrifon yn fwy cywir.

Penderfynwyd trafod y swm yma ynghyd a'r gyllideb a'r Polisi Ariannol mis Mehefin.

O gwmpas y Bwrdd

Penisarwaun – Twll yn ffordd Cae Hywel wedi ei lenwi.

Diffriblydd – Pleser yw cael dweud fod Penisarwaun bellach gyd 2 diffriblydd.

Llinellau Melyn – Mae'r llinellau melyn sydd wedi eu peintio tu allan I'r ysgol ym Mhenisarwaun wedi mynd dros amser ac angen eu ail peintio.

Brynrefail – Mae tarmac a llwybr beics o amgylch y llyn yn edrycch yn dda, trueni nad yw wedi 'i oleuo.

Mae gwair y parciau chwarae yn sobor o uchel, ac nid yn cael ei dorri ddigon aml gan Y Cyngor Sir. Mae'r broblem yma ym mhob pentref, ond gan mai'r Cyngor Sir sydd yn gyfrifol, ni allwn wneud dim ar hyn o bryd.

Rhiwlas – Mae llwybr neu ffordd o top Rhiwlas, Ty'n LLidiart i Tai Rallt, yn cael ei ddefnyddio i reidio quad beics a beics modur a hefyd yn lwybr i gerddwyr a cŵn 'run pryd. Cysylltu a'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt os ydi bosib iddynt ystyried a gweithredu ar yr opsiwn gorau o ochr iechyd a diogelwch y cyhoedd.

Cynrychiolaeth Aelodau ar wahanol fudiadau - Nodwyd nad oes gan y Cyngor restr o gwbl o bwy sydd yn cynrychioli y Cyngor Cymuned ar fudiadau. Felly, penderfynwyd ei roi ar agenda mis Mehefin i greu rhestr.

Biniau Halen – Bin halen Bro Elidir, Dinorwig a lon Garnedd Deiniolen dal heb eu gosod.

Cynllun Treftadaeth – Cafwyd adroddiad byr gan Idris Thomas fod y teithiau cerdded, a'r syniadau ac awgrymiadau yn mynd yn dda ac y bod 3 taith gerdded wedi bod. Bydd y daith nesaf diwedd Mai, ac yna fydd y criw yn rhoi adroddiad at ei gilydd erbyn diwedd Mehefin.

Swyddog Adfywio – Cafwyd wybod mai Rhian Elin George yw'r Swyddog Adfywio Newydd yn yr ardal.

Diffriblydd Deiniolen – Cafwyd adroddiad gan Emma Chappell bod dau diffriblydd arall ar y ffordd, bod un yn mynd i Ddinorwig a llall ar wâl Tŷ Elidir. Nodwyd fod un Clwt y Bont wedi ei ddefnyddio yn barod yn ddiweddar.

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau
Cyngor Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS MAI 2019:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher yr 8fed o Fai, 2019 am 7.00 y.h.

1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Nicola Brown, Gwilym Evans, Bethan Holding, Aneuryn Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

2 DATGAN BUDDIANT:

Cofnodir, os yn berthnasol, o dan wahanol benawdau.

3 ETHOL SWYDDOGION:

Gyda'r Clerc yn y gadair etholwyd Rhys ap Gwilym a Bethan Holding, y Cadeirydd a'r is Gadeirydd presennol, am flwyddyn arall. Roedd y bleidlais yn unfrydol.

4 CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 10fed o Ebrill, 2019 fel rhai cywir.

5 MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Y Fynwent:

Adroddwyd fod trefniadau ar y gweill i gael pridd i lenwi ambell dwll a phant a oedd wedi ymddangos yn ddiweddar.

2. Cau Gwasanaethau Ysbyty Gwynedd:

Daeth ateb i'r llythyr a anfonwyd gan y Cadeirydd at nifer o bobl (Vaughan Gething yr Ysgrifennydd Iechyd, Mark Polin, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gary Doherty, Prif Weithredwr y Bwrdd) mewn perthynas â'r bwriad i gau yr Uned Fasgwlar yn YG a symud y gwasanaeth i Ysbyty Glan Clwyd. Er gwaetha apêl y Cyngor hwn a nifer o gynghorau eraill dywedwyd bod y penderfyniad wedi ei wneud i symud y gwasanaeth.

3. Coed Doctor:

Yn ôl y sôn mae'n ymddangos y bydd ymateb da i'r bwriad i gynnal cyfarfod cyhoeddus ymhen yr wythnos i drafod dyfodol y coed.

4. Ymateb:

Chafwyd dim ymateb hyd yn hyn i nifer o lythyrau eraill ynglŷn â llifogydd, gwaith adeiladu a Ffordd Capel Coch.

5. DAC Beachcroft:

Derbyniwyd siec yr 'excess' fel rhan o'r gost o adnewyddu arwydd Croeso Nantperis ar ôl iddo gael ei chwalu gan feic modur mewn damwain y llynedd.

6 MATERION ERAILL:

1. Cae Chwarae Gwaith Nwy (Cae Gas):

Adroddwyd fod defaid yn ddiweddar wedi bod yn mynd i'r cae. Yn ôl pob tebyg mae'r defaid yn cael mynediad oherwydd fod yna fwllch rhwng y ffens a'r fynedfa.

7 GOHEBIAETH:

1. Zurich: Derbyniwyd manylion yswiriant am y flwyddyn i ddod. Mae gan y Cyngor gytundeb 3 blynedd efo'r cwmni, cadarnhawyd y trefniant.

8 ADRODDIAD ARIANNOL BLYNYDDOL:

Cyflwynwyd adroddiad ariannol terfynol am y flwyddyn yn diweddu ar yr 31ain o Fawrth 2019 gan y Clerc. Cyflwynwyd manylion gwariant a derbyniadau'r flwyddyn a chafwyd dadansoddiad o wariant ac fe gymharwyd hynny â'r flwyddyn flaenorol o ran gwahanol agweddau o waith y Cyngor. Derbyniwyd yr adroddiad yn unfrydol i'w drosglwyddo ymlaen i'r archwiliwr mewnol, sef Adran Archwilio Cyngor Gwynedd. Ar ôl derbyn y fantolen derfynol ail edrychwyd ar gyllideb y flwyddyn sydd i ddod gan addasu ychydig yma ac acw.

9 LLWYBRAU A'R FYNWENT:

Nodwyd fod y bont dros afon Dudodyn yn dal heb ei hail adeiladu.

10. ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL:

Adroddwyd fod y cyngerdd a drefnwyd gan IO tuag at y gronfa i ail doi to Eglwys Sant Peris wedi bod yn llwyddiant yn gymdeithasol ac ariannol. Adroddwyd bod problemau parcio o dro i dro o flaen yr Eglwys.

TUDALEN YR IFANC

Alexa, siarada chydig o Gymraeg

Mae llawer o sylw wedi ei roi yn ddiweddar i erthygl colymnydd y Guardian, Rhiannon Lucy Cosslett newyddiadurwraig sy'n wreiddiol o ardal yr Eco ond bellach yn byw yn Llundain. Cafodd ymateb arbennig i'w herthygl barn "Cymru am Byth! - How speaking Welsh became cool" a oedd yn cydnabod llwyddiant bandiau fel Alffa a rhaglenni teledu dwyieithog fel Craith/Hidden yn arwain at gynnydd ar gyrsiau Cymraeg ar-lein fel 'Duolingo' a 'Say Something in Welsh'.

Un broblem sy'n cael ei godi yn yr erthygl yw presenoldeb y Gymraeg ar dechnolegau fel 'Alexa' neu raglenni adnabod llais eraill fel 'Siri' neu Google Home. Mae'n siom felly nad ydy'r erthygl yn cydnabod prosiect arall sydd yn cael sylw'r cyfryngau ar hyn o bryd, sef Common Voice Cymraeg.

Prosiect yw hwn sy'n cael ei arwain gan gwmni technoleg rhyngwladol Mozilla gyda chyfraniad Canolfan Bedwyr, Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor. Nod Common Voice yw casglu a dilysu miloedd o leisiau gwahanol yn siarad Cymraeg er mwyn creu cronfa ddata i gwmnïau mawr fel Amazon a Google allu troi ein cynorthwywyr digidol yn siaradwyr Cymraeg. Ond er mwyn gallu gwneud hyn, mae angen ein help ni, siaradwyr Cymraeg y byd, i gyfrannu.

Sut i fynd ati?

- Ewch i wefan voice.mozilla.org/cy
- Dewiswch 'siarad' er mwyn recordio eich llais yn darllen gwahanol frawddegau
- Dewiswch 'gwrando' er mwyn dilysu lleisiau pobl eraill
- Ceisiwch wneud hyn mor aml â phosib

Rhowch dro arni! A pwy a wyr, efallai erbyn 2050 gallwch ofyn "Alexa, pryna rifyn nesa' Eco'r Wyddfa os gweli di'n dda?"



BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Ar ben arall i'r lein



Mae'n debyg eich bod wedi syffedu darllen helyntion yr arwchiliad yna yn y Drenwydd oedd ar gais Cyfoeth Naturiol Cymru i geisio newid rhai o'r is-ddeddfau pysgodfeydd. Wel o'r diwedd ar 3ydd. Mehefin fe anfonodd yr arolygwr ei bendryfyniadau i'r gweinidog Lesely Griffiths. Be oedd ei argymellion, chawn ni ddim gwybod hyn hyd nes ei bydd hi wedi penderfynu be i wneud. Mi fydd yn rhyddhau y wybodaeth yma ar 22 Gorffennaf, cyn i'r senedd gau ei drysau am ei gwyliau haf. Felly a allwch chi wneud synwyr o hyn. Archwiliad cyhoeddus wedi costio oddeutu £350,000 a'r tebygrwydd i'w na chawn wybod holl awgrymiadau'r arolygwr, bydd y penderfyniad ar be i'w rhyddhau yn cael ei wneud yn ôl pob golwg gan y gweinidog – be oedd pwynt felly gwario'r holl arian. Efallai fy mod i wedi mynd yn rhy oedranus i ddeallt y penderfyniadau gwleidyddol modern yma, be da chi'n feddwl. Ond mae un peth yn sicr mi fydd yn rhaid disgwyl hyd Medi cyn bydd yn bosib datgelu'r wybodaeth yn yr Eco.

Yn ystod llifogydd mawr 2018 fe gollwyd un o byllau goreu'r Seiont, sef Llyn Harri Parri neu Llyn Glanrafon. Fe wnaethwyd cais i'w atgyweirio, a chan fod arian at waith adfer cynefinoedd ar gael i'r Afon Seiont fe gytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru y buasai'r gwaith yn disgyn oddifewn i'r canllawiau. Mae'r gwaith nawr wedi ei wneud, a joban ardderchog i'w hefyd. Ond fel arfer gyda urhyw waith ar yr afon nid yw at ddant pawb, dwi'n cael tipyn o boen clust yn barod oherwydd bydd yn hawdd colli gŵr troelli ar y cerrig mawr sydd wedi ei rhoi yn rannau or pwll fel lloches i'r pysgod. Mae eisiau gras ar adegau, ond mi fydd y pysgota llawer gwell yn y pendraw. A pwy a wyr efallai bydd helfa dda o droellwyr i'w casglu oddiar y cerrig pan fydd yr afon yn isel.

Mae'r sgota dros y mis diwethaf ar adegau wedi bod yn ardderchog, mae Llyn Y Dywarchen wedi rhagori ar ein disgwyliadau, fe gyflwynwyd stoc arall ar 10ed. Mehefin, pysgod ardderchog eto o Traws. Fel arfer y booby sy'n sgorio pan mae'r dymheredd fel ag y mae eleni, ond gyda syndod i lawer o'r ffyddloniaid mae plu bach ar y gwyneb yn gweithio'n dda. Mae llawer yn cael pleser di ben-draw ar ei lannau ond mae rhyw elfen yn y fro yma, mwyaf 'di'r pechod o fethu gweld gwerth mewn dim. Fel y gwyr holl bysgotwyr pell ac agos na pysgota gyda pluen yn unig yw'r reol yma, does dim esgus anwybyddu hyn gan fod digon o arwyddion wrth y fynedfa. Ond does na ddel mae rhyw ychydig, yn enwedig rhyw foi yn gwisgo trowsus lliw oren a'i griw sy'n dod yno ac yn sbinio oddiar yr argae. Yndi maen't y cael pysgod, ond y diweddglô iddynt fydd ymweliad ar llys.

Mae'r Seiont hefyd wedi dechrau rhoi i fyny a'i brithyll, ond nid brithyll brown naturiol fel y disgwylir ond brithyll yr enfys, does neb yn gwybod o ble mae rhain wedi dod. Clywaf rai beirniadol yn dweud eu bod wedi cael dihangfa o Ddeorfa Crawia, wel anghywir unwaith eto gan nad oes yno frithyll or math, a fodd bynnag pan mae rhain yn cael ei paratoi at y badell mae grawn ynddynt. Felly penbleth yw, o ble mae rhai wedi dod gan fod rheolau Cymru a Lloegr yn gwahardd unrhyw stocio ond gyda be mae'n yn alw yn triploids, sef brithyll wedi eu sterileiddio. Cefais luniau a rai o rhain gan John Fraser Williams, Crawia. Mae John hefyd wedi cael y gwyniedyn cyntaf or afon yn ystod dyddiau cyntaf Mehefin. Blasus ofnadwy oedd gyda tatws newydd meddai. Ac yn dilyn y llif sydd yn yr afon heddiw (13/6) mi fydd werth rhoi tro arni gyda'r nos ymhen rhyw ddau ddiwrnod – cewch wybod, wel mi fydd yn mis Medi cyn yr adroddiad nesaf.

Wedi cyffwrdd ar pysgod dieithr ar y Finiog, mi es allan ar 12ed Mehefin gyda'r enwair sbinio a mepps bach i edrych oedd yn bosib cael un o'r dieithriaid i gyda'r gobaith o daflu tipyn o oleuni ar be oedd yn mynd ymlaen. Ni welais ddim i fy arwain at ddatgelu'r dirgelwch, ond fe gefais fy mhlesio o'r ochr oreu, cefais tua dwsin o frithyll brown bach, i gyd tua 6 modfedd, yn ogystal a dau or safon uchaf a amcangyfrifwn oedd dros bwys yr un. Fe aeth y cwbl yn

ôl i'r afon, ond fel mae pethau'n gwella mi fydd yn ddigon posib bydd na rhwy wledd bach o frithyll cyn diwedd y tymor. Gobeithio fydd gan John dipyn o'i datws ar ôl!

Mis diwethaf fe ddaeth y ddau Dafydd a tipyn o atgofion yn ôl, yn gyntaf Dafydd Whiteside ar ciperiaid oedd o gwpas y lle, a fel oddynt yn trio eu goreu i gadw rhyw brydun bach oddiar fyrddau lleol, a fel rhyw gynffon ar hyn. Dyma fyddai fy nain oedd yn byw yn Rhiwen, Deiniolen a rhan o'r teulu yn olrain o Gae Cerrig sy'n ferddyn erbyn heddiw yn ddweud pan fyddai'n rhyw hen noson wyntog wlyb. Wyddost ti be mi fyddai cipar Faenol 'na yn dod ar nosweithiau tawel oer ac yn sefyll am hir ar ben groeslon Blaen Cae i edrych os byddai yn medru arogl plu yn llosgi. Dyna oedd yn obeithio fuasai yn ei arwain at rai oedd wedi bod yn potsio'r ffesantod. Gan dyna fyddai'r arferiad i'w pluo i'r tân. Ond wrth gwrs fyddai neb wrthi pan yn noson oer, dawel, disgwyl oedd y gamp am noson wyntog wlyb i chwythu'r arogl ymaith – da de!

Ond mi oedd hela a potsio yn rhan fawr o be oedd yn mynd ymlaen yn nghefn gwlad, dyma un dda o'r llyfryn bach ardderchog 'Cofio Deiniolen' gan Gracie Owen. Mae'n cyfeirio at hela gyda milgwn yng Nghaer Mynydd, ac yn y fan hono oedd tŷ'r cipar. Dyma mae'n ddweud "Tra'n son am y milgi, clywais stori am ryw gymeriad o'r enw Wil Celwydd Goleu,. Mae'n debyg ei fod yn berchen ar wasgod oedd wedi ei gwneud o groen migi. Un diwrnod 'roedd am dro i gyfeiriad Caer-Mynydd pan ruthrodd sgwarnog ar draws y ffordd, a dyma'r wasgod yn rhuthro oddi ar ei gefn ac ar ôl y sgwarnog!!"

Tra ar y ciperiaid, dyma ddeth i'm llaw am gipar arall sef cipar afon .

Yn y llys parablu'n llon – bwrw'i fach

heibio'r fainc – tua'r c'nafon

Ond mae siom, nad oes dim sôn

pa rif deil cipar afon

Richard Llwyd

A'r Dafydd arall sef Dafydd Guto yn Pigion Byd Natur a'r 'sgodyn blewog. Wel pwy'n sy'n cofio Llyn Penrallt, Dinorwig, twll chwarel yn 'Rallt Ddu. 'Roedd ar un adeg dros hanner llawn o ddŵr, ac ynddo oedd y pysgod mwyaf 'roeddwn i am cyd-bysgotwyr o Ddeiniolen wedi ei gweld. 'Roedd yn yn bosib dal rhai bach o'r rhain yn yr afon fyddai yn rhedeg o'r twll drwy'r lefel odditan y ffordd ac i'r Afon Bedwargoed. Ond y peth rhyfedd am y pysgod yma oedd fod blew ar eu gwynebau, 'roedd ganddynt bennau go fawr a chorff teneuach na'r brithyll brown arferol. 'Roedd hwyl i'w gael yn eu dal, ond unwaith erioed aethwyd a rhai adref, 'roedd fy mam ddim yn rhyw falch iawn o'i gweld gan eu bod yn llawn o esgyrn man, a dim yn flasu o gwbwl. Brithyll Canibal oeddynt yn cael ei galw o gwpas y lle. Ia pethau go ryfedd – ond peidiwch a meddwl na tynnu coes sy'n mynd ymlaen, edrychwch ar deithiau Pennant drwy'r fro. Oni ydio, y cyn deithiwr talog yn cyfeirio at bysgotwr yn y 'Snowdon Ranger' ym Metws Gormon yn disgrifio'r un pysgodyn oedd i'w gael yn un or llynnoedd wrth droed y Wyddfa. Gan ein bod yn anelu am tipyn o dywydd braf, tydwi ddim am datgelu'r llyn rhag ofn i chwi oll fynd yna a dal yr her pethaublewog yma i gyd.

Huw Price Hughes.

Un funud fach ...

I MEWN I RYDYMAIN

Ar fap y 'cilcyn o ddaear mewn cilfach gefn' hon o wlad sy'n gartref i ni mae yna gannoedd o lefydd sy'n ddiethr i mi, ac ardaloedd eang na fûm ar eu cyfyl. Mae yna hefyd restr hir o lefydd y bûm yn agos atyn nhw er na fûm erioed ynddyn nhw. Ond erbyn hyn, mi fedraf groesi un o'r llefydd hynny oddi ar y rhestr. Roeddwn wedi gyrru heibio i Rydymain lawer gwaith ar y ffordd o Ddolgellau i'r Bala, ond yr wythnos ddiwethaf oedd y tro cyntaf i mi adael y briffordd a mynd i mewn i'r pentref. Cyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr aeth â mi yno. Roedd yn siŵr o fod yn lle dieithr i lawer o'r ymwelwyr o ben draw'r wlad, ond nid iddyn nhw'n unig chwaith. Cysur oedd deall nad oeddwn i'r unig un o'r Gogledd, ac o Wynedd hyd yn oed, na fu yno o'r blaen. Mae'n bentref prydferth, yn arbennig yr hen ran ohono lle mae'r capel, o fewn taflad carreg i afon Eiddon a'r bont sy'n cario'r lôn gul trwy'r pentref dros ei dyfroedd.

Mae'r pentref i'w weld o'r briffordd. Mewn gwirionedd, nid yw ond ychydig lathenni oddi wrthi; ond fûm i na sawl un arall ynddo erioed, er mynd heibio fwy nag unwaith. Mor agos, ac eto mor bell.

Bu'r Annibynwyr yn trafod pob math o bethau yn Rhydymain. Hyd y gwelais i, doedd yno neb yn tynnu'n groes. Ond dyna'n sicr wnâi'r Pharisead a'r Sadwceaid y sonia Marc amdanyn nhw yn ei efengyl (Marc 12:13-27), wrth iddyn nhw herio Iesu Grist ynglŷn â thalu trethi i Cesar ac ynglŷn â'u hamheuron hwy ynghylch yr atgyfodiad. Wrth ymateb iddyn nhw, ni allai Iesu beidio â dweud, 'Yr ydych ymhell ar gyfeiliorn.'

Wedi'r trafod a'r dadlau â'r rhain, awyr iach oedd y person nesaf a ddaeth i sgwrsio ag Iesu. Cwestiwn yr ysgrifennydd hwnnw oedd, 'Prun yw'r gorchymyn cyntaf o'r cwbl?' (Darllenwch yr hanes yn llawn yn Marc 12:29-34.) Ond ar ddiwedd y sgwrs, meddai Iesu wrtho, 'Nid wyt ymhell oddi wrth deyrnas Dduw'. Dyna'r olaf a glywn am y dyn; does wybod beth a ddaeth ohono. Ond rhoddwyd ei hanes ar gof a chadw er mwyn i ni ddeall bod modd bod yn agos i deyrnas Dduw heb o reidrwydd fynd i mewn iddi, yn yr un modd ag y bûm i'n agos fwy nag unwaith i bentref Rhydymain heb fynd i mewn iddo.

Pam y dywedodd Iesu hyn wrth y dyn? A beth a olygai wrth ddweud nad oedd 'ymhell oddi wrth deyrnas Dduw'? Roedd y dyn yn amlwg yn credu yn Nuw ac yn gwybod beth oedd gofynion Duw arnom. A gwelai Iesu ei fod wedi ystyried y pethau hyn yn ofalus. Ond dweud a wnaeth Iesu nad oedd y pethau hynny wedi dod ag ef i mewn i'r deyrnas. Heb fod ymhell oedd o: mor agos, ac eto mor bell oedd hi yn hanes hwn hefyd.

Cam bychan oedd angen i'r ysgrifennydd ei gymryd: ac eto mor fawr oedd y cam hwnnw. Oherwydd nid digon credu yn Nuw; nid digon dweud mai'r hyn a fyn Duw yw ein bod yn ei garu ef â'n holl galon ac yn caru ein cymydog fel ni ein hunain. Roedd y dyn yn credu hynny. Yr hyn na wnaethai, a'r hyn a olygai nad oedd eto wedi cael gafael ar deyrnas Dduw, oedd cydnabod na fedrai garu felly, a cheisio maddeuant Duw am hynny. Ie, cam bychan, ac eto cam enfawr oedd – ac ydyw – hwnnw, i'r dyn ac i ninnau.

JOHN PRITCHARD

Pigion Byd Natur

Llyswenod/ 'Slywod' Rhyfeddol



Ar lafar, sliwan/sliwen, (lluosog-sliwod); slows,, (Dafydd W. Thomas, Llanrug 2011)

Yn y Genedl Gymreig Mawrth 10 (1886) dywed V. iddo ganfod rhawn a oedd wedi troi'n rhyw fath o llyswen fain.

Easgunn y gelwir slywod yn y Gaeleg, a dywed John Gregorson Campbell, Superstitions of the Highland and Islands of Scotland (1900) bod rhai o drigolion Ucheldir yr Alban yn credu bod slywod yn tyfu o rawn ceffylau.

Adroddir hanes sgotwr ar Ynys Harris mewn cyfnod o newyn yn mynd i sgota ac yn llwyddo i ddal dim byd ond slywod! Ni fynnai'i wraig eu bwyta. Mi fwytaodd yntau nhw, ac mi wallgofodd. Aeth ei wraig i geisio cymorth ymwelwyr o Loegr a arhosai gerllaw mewn loj hela. Daeth yr helwyr Seisnig o hyd i'r gwallgofddyn mewn cae ac yn ymladd â cheffyl. Mi roedd o mor ffyrnig fel bu i'r Saeson ei saethu'n farw gelain. Yn y trengholiad canfyddwyd mai'r hyn a berodd iddo wallgofi ydoedd y slywod a fwytaodd, a'r rheiny wedi tyfu o rawn ceffyl!

Mewn mannau gwlypion yng Nghonnemara, yr Iwerddon Rydd, ceir sôn am slywod ceffylau, a dywedir eu bod o gymorth pan fo angen cadw plant bach draw, pan fo'r haul ar fachlud, a hynny o leoedd peryglus yn y mawnogydd.

Y mae'r Hynafiaethydd Gwyddelig Thomas Crofton Crocker (1798-1854) brodor o Gorc, yn ystod y blynyddoedd 1812-16, tra'n casaglu llên gwerin yn rhanbarthau deheuol yr Iwerddon, yn rhoddi inni dystiolaeth werthfawr am slywod ceffylau.

Yn y flwyddyn 1954 bu i'r lyfrgellyddes Georgina Carberry, tra'n sgota'n Lough Fadda, swydd Galway, weld slywan ceffyl. Yn y flwyddyn 1965, pwy a gyrhaeddodd yr union fan y gwelodd hi'r slywan ceffyl, ond Capten Lionel Leslie, ynghyd ag ymchwilyr proffesiynol, yn eu plith David James, a'r Dr Roy P. Makal, a'r ddau ohonynt yng ngofal y Biwro Ymchwil Loch Ness yn yr Alban.

Hefo cymorth ffrwydrion llwyddwyd i godi i'r wyneb greadur anferthol nas gwelwyd erioed o'r blaen ei debyg, ond cwbl aflwyddiannus fu'r ymdrechion i'w ddal a'i gaethiwo, gan ei fod wedi'i gynydddeiriogi cymaint.

Dydi o heb fod yn eich synnu chwaith (pobl ydi pobl!) bod nifer o fodau dynol wedi dyfod i'r casgliad mai llyswen ceffyl/ llyswen flewog ydi Nessie, sy'n llechu yn Loch Ness. Yn sicr ddigon, y mae'r llyswen ceffyl, yn ddu ei lliw, ac y mae ganddi fwng. Nessie?

Lliswen ydi llyswen ebe William Meredith Morris (1867-1921) yn ei gyfrol A Glossary of the Demetian Dialect of North Pembrokeshire (1910) a chrybwylla ei bod yn arferiad gan rhen Gymry dynnu rhawn, hynny ydyw blew hir a garw, a'u plycio o'u gwreiddiau, gorau oll cynffon ceffyl, a'u taflu i byllau ceffylau, ble troent yn llyswenod! Dydi hyn i gyd ond dychymyg noeth! Nid sliwen mwy nag sliwenod/slow a welir, ond cynrhon a llyngyr, sy'n byw yn y dŵr.

Dafydd Guto

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

AVW Advanced Vehicle Workshop

Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porsche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader

01286 673559

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

Priodas Llongyfarchiadau i Sioned Alaw, Meini Gleision ar ei phriodas â Dylan Gwyn Owen o Gaernarfon. Priodwyd y ddau ar ddiwrnod arbennig o braf, dydd Sadwrn y Pasg yng Nghapel Salem, Caernarfon. Pob bendith a hapusrwydd yn eu bywyd priodasol gan y teulu a ffrindiau.



Priodas Sioned a Dylan

Sefydliad y Merched Nos Fawrth, Mai 21, cynhaliwyd cystadleuaeth ranbarthol Cwpan Rhosynnau y Ffederasiwn y Nghaernarfon. Trodd allan yn noson dda i aelodau canghennau Brynrefail a Phontrug a oedd wedi gweithio yn galed i ddatblygu eu harddangosfa a dod yn enillwyr y gystadleuaeth ar ran Grŵp Eryri. Nawr byddant yn mynd ymlaen i'r

Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd fis Gorffennaf.

Nos Wener, Mehefin 7fed, bu gemau terfynol Boccia yn y Ganolfan, Llanberis, gyda Grwpiau Llŷn, Eifionydd ac Eryri yn cystadlu. Roedd balchder fod Eryri wedi ennill gyda Sheila, Janice a Dwynwen o gangen Brynrefail yn y tîm. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfa Arbennig Nos Sul Gorffennaf cafwyd oedfa arbennig dan arweiniad ein Gweinidog y Parch Marcus Robinson. Roedd yn oedfa unigryw yn wir i'r Eglwys yma ym Mrynrefail. Roedd Dafydd a Moira Ellis wedi dymuno cael cydnabod dathliad eu Priodas Aur gyda bendith a chanu un o emynau dydd eu priodas. Ond trodd allan i fod yn wasanaeth dwyieithog llawn o Adnewyddu Addunedau wedi ei drefnu gyda thrylwyrdd gan ein Gweinidog gyda llawer o gyffyrddiadau personol a neges bwrpasol yn y bregeth. Roedd yn hyfrydwch gan lywydd y mis, Lowri Prys Roberts, gael croesawu nifer dda o'r teulu ynghyd â'r aelodau i'r gwasanaeth a datgan pa mor ffodus fel eglwys fuom o gael teulu mor gymeradwy ac artistig i symud i'r Mans a'i drysori am dros ddeugain mlynedd. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i ddiolch i Dafydd am ei ymroddiad, ei gymwynasau a'i ffyddlondeb i'r Achos ym Mrynrefail.



Dafydd a Moira Ellis gyda'r Parch Marcus Robinson

Dymuno yn dda Yn ystod eisteddiadau Cymanfa Gyffredinol yr Eglwys Bresbyteraidd a gynhelir eleni yng Nghapel y Groes, Wrecsam, Gorffennaf 8-10, fe arwisgir ein Gweinidog y Parch Marcus Robinson yn Llywydd y Gymanfa 2019 -2020. Rydym yn ei longyfarch ar dderbyn ohono yr anrhydedd uchaf hon yn Llys y Cyfundeb gan ddymuno pob bendith iddo yn yr holl weithgareddau a'r dyletswyddau dan ei arweiniad.

i gloi'r noson. Edrychir ymlaen at y Trip Dirgel i gloi gweithgareddau'r haf a datgelu y dirgelwch yn ein hadroddiad nesaf.

Cofier hefyd am y Sioe Grefftau a Chynnyrch fydd ymlaen yn y Ganolfan Llanberis ar Fedi 21ain. Anfoner eich holl geisiadau i Swyddfa'r Ffederasiwn.

Oedfaon Gorffennaf am 5 yr hwyr 7 Parch Marcus Wyn Robinson - Gweinidog

14 Mrs Nerys Griffith, Caernarfon
21 Mr Robert Morris, Penygroes
Bydd yr oedfa nesaf ar Fedi 1af dan arweiniad y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson

NANT PERIS

GWLEDD I'R GLUST

Ar nos Sul, Mai'r Sed, cafwyd noson i'w chofio yn Eglwys Sant Peris, Nant Peris, gyda chyngerdd arbennig llawn hwyl dan arweiniad Dei Tomos I godi arian at atgyweirio to'r eglwys.

Cawsom wledd o gerddoriaeth gyda pherfformiadau gwefreiddiol gan y soprano Julie Bulman, deuawdau gan Julie a Karen Jones; y triawd offerynnol Lois Eifion, Dylan ac Ela a deuawd offerynnol gan Ross Craigmile a Helen Wilcox. Roedd Cor Meibion Dyffryn Peris yn morio canu yn yr eglwys fach cyn I hogan o Nant, Stephanie Welsby, gloi'r noson gyda pherfformiad hudolus o ganeuon poblogaidd, a chyfle hwyliog I'r gynulleidfa ymuno drwy ganu rai o anthemau enwocaf Abba!

Diolch yn arbennig i'r holl berfformwyr ac yn arbennig I Ross Craigmile am gyfeilio a threfnu'r eitemau cerddorol; Dei Tomos am arwain a merched yr eglwys am addurno'r eglwys.



Llwyddwyd I godi £3,131 at gronfa Atgyweirio To yr Eglwys. Diolch yn fawr iawn I'r gynulleidfa am gefnogi'r noson hwyliog ac I bawb a gyfrannodd yn ariannol. Dymunwn ni ddiolch hefyd I Mrs Iola Owen am ei holl waith yn trefnu'r noson.

Chwaraeon

Gwobrwyo Celtiaid Caernarfon



Roedd Neuadd Goffa Bethel dan ei sang nos Wener, Mehefin 14eg wrth i Glwb Pel-fasged Celts Caernarfon gynnal noson wobrwyo ddiwedd tymor yno. Yn dilyn blwyddyn lwyddiannus o gystadlu gan y timau ieuencid a'r tim dynion, roedd pawb yn edrych ymlaen i ddatlu ac ail fyw atgofion am y tymor a aeth heibio.

Derbyniodd y timau dan 16 a dan 18 oed eu tlysau fel buddugwyr Cynghrair Gogledd Cymru 2018/19 gyda'r timau dan 14,16 ac 18 hefyd yn cael eu cyflwyno gyda Chwpanau cystadleuaeth Cwpan Gogledd Cymru.

Roedd y tri hyfforddwr ieuencid, Sion Owen, Aled Gwilym Jones ac Arwel Jones yn canmol brwdfrydedd y chwaraewyr ifanc a chyflwynwyd sawl gwobr ar y noson. Bu sawl un o fro'r Eco yn llwyddiannus gyda'r canlynol yn derbyn tlysau.

Dan 14 oed

Chwaraewr y chwaraewyr – Dafydd Jones (Waunfawr),

Chwaraewr yr Hyfforddwr - Ben Jones-Ellis (Llanrug),

Amddiffynnwr y flwyddyn – Morgan Jones (Caeathro),

Dan 16 oed - Amddiffynnwr y flwyddyn - Iolo Jones (Llanrug).

O'r tim dynion derbyniodd Niall Williams (Bethel) dlws Chwaraewr y chwaraewyr a thlws Chwaraewr yr Hyfforddwr gan hefyd dderbyn tlws Prif Sgoriwr Cynghrair Gogledd Cymru gyda 222 o bwyntiau i'w enw.

Gan fod Aled, Hyfforddwr y tim dan 18, wedi symud o Fethel i Bromborough i fyw ac yn gadael y clwb ddiwedd y tymor hwn, cyflwynwyd tlws iddo i ddiolch am ei flynyddoedd fel hyfforddwr y timau ieuencid a'i wasanaeth fel chwaraewr allweddol i'r tim dynion.

Diolchwyd yn arbennig hefyd i gwmni CL Jones am noddi cit tim dan 16 y Celts a chyflwynyd tlysau'r tymor i'r chwaraewyr hynny gan Gyfarwyddwr y cwmni, Mr Michael Jones.

Mae holl luniau y noson i'w gweld ar ein tudalen facebook Clwb Pel fasged Celts Caernarfon Basketball Club.

Bydd y clwb yn cymeryd seibiant bach am yr wythnosau nesaf ac yn ail ddechrau ymarfer ddiwedd mis Awst.

Draenog

Mae pysgotwr ar ben arall y lein yn honni ei fod wedi dal amryw o'r pysgod gwllannog y soniwyd amdanynt y mis diwethaf, a hynny yn nyfroedd afon Saint. Yn wir, aeth ar ei lw ei fod wedi dal un gyda digon o wllan arno i wau pâr o sannau penglin. Ac nid stori pysgotwr mohoni.

SPAR

Y Storfa Spar Llanrug

Sgwâr Llanrug
01286 673108



Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun - Sadwrn 6:30am - 9 pm, Sul 8am - 9pm



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• **PRIODASAU** •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The **ROYAL VICTORIA HOTEL**
Snowdonia

TLWS ARALL



Clipyti – Klopp, Clipyti – Klopp. Ar garlam mae tîm pêl-droed dan 9 Bethel wedi hen ennyn parch y timau lawr yr arfordir gyda'u perfformiadau yn y gwahanol dwrnamentiau. Bae Colwyn oedd lleoliad y llwyddiant diweddaraf. Wedi diwrnod caled o chwarae llwyddwyd i guro Prestatyn Athletic o 1-0 yn y rownd derfynol. Yr wythnos ganlynol twrnament Llandudno oedd yr her. Eto'r prif dimau yno, ond y tro yma collwyd o 3-2 ar ôl ciciau o'r smotyn yn y rownd gyn-derfynol. Da iawn nhw, ac mae ambell i dwrnament dal ar ôl drwy'r haf. Trist meddwl, wedi'r holl flynyddoedd na chaiff y tim dawnus yma gyfle i gipio'r prif wobwr sef medalau a chwpan Tlws yr Eco. Rwyf i beth bynnag yn colli gwefr ac ymroddiad y noson leol arbennig honno.

CYNNAL DATBLYGIAD – A LLWYDDIANT



Cyfeiriais at Cody O'Donnell yn rhifyn mis diwethaf, ac mae'n haeddu sylw eto'r mis hwn. Er mai 11 oed yw Cody mae'n cystadlu ar lefel athletau Cymru yn yr oedran dan 13. Daeth llwyddiant i'r aelod o glwb Trac a Maes Menai ym mhencampwriaeth Cymru dan 13 oed yn Wrecsam. Cipiodd y fedal aur am daflu'r pwysau (shot) gyda phellter o 9.33m. Pellter yr ail oedd 8.55m. Gyda blwyddyn arall yn y grwp oedran yma mae gobaith ymestyn y pellter. Cipiodd hefyd y fedal efydd yng nghystadleuaeth taflu'r waywffon.

Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

RHEDEG MYNYDD



Cymru'n ennill y Trail de Guerledan

Erioed wedi clywed am y ras hon? Mae'n cael ei chynnal yn Llydaw, a ras llwybr yw hi mewn gwirionedd, gyda rhai cannoedd o redwyr yn cymryd rhan dros wahanol bellter. Eleni roedd timau rhyngwladol o bedwar wedi eu gwahodd i gystadlu, ac yn nhim Cymru roedd Rob Samuel o Lanberis a Richard Roberts (o ddyffryn Ogwen). A Chymru oedd yn llwyddiannus, gyda Rob yn ennill y ras, a gweddill y tim yn gorffen mewn safleoedd oedd yn sicrhau buddugoliaeth tim i Gymru. Gorffennodd Llydaw yn ail dim, yn cael eu dilyn gan Iwerddon a Phortiwgal.

Cyfes Nos Fawrth

Daeth y gyfres i ben gyda Ras Dinas o'r Hostel Ieuencid yn Llanberis a'r gwobrwyo yn dilyn yn yr Heights. Yr unig redwraig leol i ennill unrhyw ddosbarth oedran oedd Maggie Oliver o Ddinorwig yn yr adran i ferched dros 70 oed.

Pencampwyr Snwcer

Llongyfarchiadau i dim snwcer Llanrug ar ennill pencampwriaeth Cynghrair Bangor a'r Cylch 2018-19, a chael eu cyflwyno efo'r darian anferthol hon. Unai roedd y tim yn rhy swil i gael tynnu eu lluniau neu maent yn sefyll tu cefn i'r darian!



grid 76
graphic design

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | A9 | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

Chwaraeon



Pencampwr Beicio Cymru

Yn Rhuthun ddechrau fis Mehefin cynhaliwyd Pencampwriaethau Beicio Treialon Amser Cymru ar gwrs o 26 milltir oedd yn cynnwys nifer o ellytydd. Roedd y gystadleuaeth wedi ei rhannu yn ôl gwahanol grwpiau oedran, gyda nifer o feicwyr o Glwb Beicio Egni, sy'n cynnwys llawer o aelodau o fro'r "Eco", yn cystadlu.

Yn fuddugol yn yr adran i rai dros 50 oed roedd Gareth McGuinness o Lanrug mewn amser o awr, munud a 40 eiliad ; ie, cyflymder ar gefn beic o 26 milltir yr awr ! Ac er ei fod bellach yn cystadlu yn yr adran hŷn, gorffennodd o fewn y pymtheg beiciwr cyflymaf o bob oedran. Tipyn o gamp! (Gyda diolch i Gwynfor James am y lluniau)



Callum O'Donnell

Ras Bwlch Maesgwm

Cynhaliwyd hon ar noson eithriadol o wlyb ganol mis Mehefin, gyda holl elw'r noson yn cael ei gyflwyno i Elusen Tenovus er cof am Rory O'Donnell. A chafwyd enillwyr lleol hefyd, gyda Dyfed Thomas (Llanrug) yn gyntaf dros 40, Manon 'Jiws' Williams (Llanberis) yn ferch gyntaf dros 40 a Guto Edwards (Llanrug) yn gyntaf dros 50 oed.

Rasys ffordd

Mae Ras 5k Llanrug yn mynd o nerth i nerth, ac yr oedd bron i bedwar ugain o redwyr yn cystadlu eleni. Braf gweld cynnydd sylweddol yn nifer y merched yn cystadlu.



Glaw mân trwm a niwl oedd hi yn Ras 10k Deiniolen, ond er gwaethaf y tywydd roedd 170 o redwyr yn fodlon herio'r cwrs caled, a diolch i drigolion y pentref am droi allan fel arfer i gefnogi ac i stiwardio. Mae cefnogaeth gymunedol fel hyn yn hwb sylweddol i'r rhedwyr, a mawr oedd eu canmoliaeth a'u diolch ar y cyfryngau cymdeithasol yn dilyn.

A bydd Ras 5k Bethel wedi ei chynnal tra'r oedd y rhifyn hwn yn cael ei argraffu.

..... ac y mae rhagolygon pawb bellach yn troi tuag at ras bwysicaf y flwyddyn yn y fro, sef Ras Ryngwladol yr Wyddfa, gan fawr obeithio y bydd tywydd gwlyb Mehefin wedi ein hen adael erbyn hynny. Roedd aelodau rhai o'r timau rhyngwladol wedi eu cyhoeddi cyn i'r "Eco" fynd i'r wasg, ond doedd dim gwybodaeth bendant am dim Cymru.